Atodiad 1

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cynllun Cydraddoldeb Strategol

# Adroddiad Monitro a Gwella Blynyddol 2019-2020

DRAFT

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a chyd-barch o fewn ein cymunedau, ein trigolion, ein haelodau etholedig, y rhai sy'n gwneud cais i ni am swyddi a'n gweithlu a rhyngddynt.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal at ein gwasanaethau, heb ystyried tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau crefyddol neu ddiffyg ffydd, y defnydd o'r Gymraeg, iaith arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion nac unrhyw reswm arall na ellir dangos bod cyfiawnhad drosto.

Cyhoeddwyd 31 Mawrth 2021

A greener place
Man gwyrddach

CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI

## Cynnwys

**Rhagarweiniad** ............................... Error! Bookmark not defined.

**Mynd i'r afael â Thrais a Cham-drin ar sail Hunaniaeth** .............3

**Mynd i'r Afael â'r Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau** ...............Error! Bookmark not defined.

**Gwella Mynediad Corfforol**.................................................12

**Gwella Mynediad Cyfathrebu** ...........................................14

**Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol**..................................16

**Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**. Error! Bookmark not defined.

**Cefnogi Cymunedau sy'n Ystyriol o Oedran**............................25

**Cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog**........................................27

**Gweithio gyda Chymunedau Sipsiwn a Theithwyr**....................31

**Amrywiaeth yn y Gweithlu** ............Error! Bookmark not defined.

**Cydymffurfiad Corfforaethol**...............................................38

**Arferion Da, Teilwra Gwasanaethau a Hyrwyddo**.....................40

**ATODIAD A – Crynodeb o Ddata Gweithlu CBSC** ……………………

DRAFT

**Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Gymraeg. Mae ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.**
**This publication is available in Welsh. It is available in other languages and formats on request.**

# Rhagarweiniad

Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 baratoi adroddiad monitro blynyddol ar y camau a gymerwyd ganddo i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'i Amcanion Cydraddoldeb ei hun. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i osod dyletswyddau penodol ar wasanaethau cyhoeddus yn ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried sut i gyfrannu'n gadarnhaol tuag at gymdeithas decach drwy ddarparu gwasanaethau gan roi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu.

Mae pob adran o'r adroddiad hwn yn ystyried cynnydd y Cyngor yn ystod 2019-2020, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos er mwyn dangos y gwaith y mae meysydd gwasanaeth wedi'i wneud i sicrhau cydymffurfiad a gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, y mae rhai ohonynt yn aelodau o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dwyn cyrff cyhoeddus ynghyd i weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bwrdeistref Sirol Caerffili, y mae rhan o'r gwaith hwn yn golygu sicrhau bod y nod o 'Cymru sy'n fwy cyfartal' yn cael ei gyflawni. Mae'r aelodau, sy'n dod o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, yn ymdrechu i fod yn greadigol ac arloesol wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Caiff cryn dipyn o wybodaeth y Cyngor sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ei gyhoeddi eisoes ar ffurf fanylach ar dudalennau Cydraddoldeb gwefan y Cyngor, lle y gallwch hefyd lawrlwytho fersiwn pdf o'r adroddiad hwn: **www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb**.

Mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod pawb ym mwrdeistref sirol Caerffili yn cael ei drin gyda'r un parch ac nad yw amgylchiadau unigolion yn eu rhwystro rhag cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan y Cyngor neu ei bartneriaid.

Er mwyn i'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Gydraddoldeb gael ei ystyried yn briodol, aeth drwy broses gymeradwyo fewnol drwy'r Cabinet ar 24 Mawrth 2021. Yna, caiff yr adroddiad blynyddol ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Mawrth 2021.

**Cyng. Philippa Marsden**
**Arweinydd**

**Christina Harrhy**
**Prif Weithredwr**

DRAFT

# Mynd i'r afael â Thrais a Cham-drin ar sail Hunaniaeth

## Gwaith Adrodd a Monitro Bwlio Gwahaniaethol mewn Ysgolion 2019-2020

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 yn cynnwys Amcan Cydraddoldeb penodol i 'Mynd i'r afael â Thrais a Cham-drin ar sail Hunaniaeth'. Ei nod yw lleihau nifer yr achosion gwirioneddol neu ganfyddedig o gam-drin, bwlio, aflonyddu a thrais, troseddau casineb ac achosion casineb yn y fwrdeistref sirol.

Er mwyn mesur yr amcan hwn mae angen i ni sicrhau bod mesurau monitro ac adrodd gwell ar waith. Bydd hyn yn arwain at gofnodion mwy cywir a *gall* arwain at gynnydd yn nifer yr achosion a gofnodwyd, ond byddai hynny o ganlyniad i well ymwybyddiaeth a chofnodi.

Caiff data ei gasglu a'i gofnodi mewn ffyrdd amrywiol er mwyn nodi tueddiadau, targedu cymorth a dangos bod y Cyngor a'r ysgolion yn cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol ynglŷn â'r materion hyn. Ar gyfer unrhyw ddata a gesglir ac unrhyw adroddiadau a gyhoeddir, defnyddir cyfansymiau wedi'u hanonymeiddio, gyda dim ond enghreifftiau o arferion da gan ysgolion unigol, neu'r rhai sydd wedi cael hyfforddiant pwrpasol yn cael eu henwi'n benodol ar unrhyw adeg.

Mae bwlio gwahaniaethol yn achos pryder i bob awdurdod lleol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i bartneriaid yn mynd ati i fonitro'r sefyllfa a mynd i'r afael â'r materion drwy weithio gyda sefydliadau er mwyn gwneud cynnydd cadarnhaol bob blwyddyn. Mae 87 o sefydliadau addysgol yn cyflwyno data monitro i'r Gyfadran Addysg, a cheir crynodeb o'r achosion a gofnodwyd yn **Nhabl 1**:

**Tabl 1 – Tabl o Achosion a Gofnodwyd**

| | Gofalu | Diwylliannol | Anabledd | Rhywedd | Homoffobig | Iaith | Cenedligrwydd | Hil | Crefydd neu Gred | Ddim yn hysbys | Cyfanswm y Tymor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tymor yr Haf 2017-2018 | 2 | - | - | 1 | 12 | - | - | 24 | 4 | 1 | **43** |
| Tymor yr Haf 2018-2019 | - | 1 | 2 | 2 | 9 | 1 | - | 16 | 2 | - | **33** |
| Tymor yr Haf 2019-2020 | - | 1 | 2 | 2 | 9 | - | 1 | 16 | 2 | 1 | **34** |
| Tymor yr Hydref 2017-2018 | - | - | 2 | 4 | 8 | - | - | 25 | 1 | - | **40** |
| Tymor yr Hydref 2018-2019 | - | 2 | 1 | 1 | 9 | - | 4 | 21 | 1 | - | **39** |
| Tymor yr Hydref 2019-2020 | - | - | 2 | 1 | 4 | 1 | - | 37 | 1 | 1 | **46** |
| Tymor y Gwanwyn 2017-2018 | - | 4 | 1 | - | 2 | 2 | - | 8 | - | - | **17** |
| Tymor y Gwanwyn 2018-2019 | - | - | 3 | 2 | 10 | 1 | 1 | 44 | 12 | - | **73** |
| Tymor y Gwanwyn 2019-2020 | - | 1 | - | 6 | 6 | 4 | - | 9 | 1 | - | **27** |

DRAFT

## Arolwg Bwlio 2019-2020

Yn anffodus ni ailadroddwyd yr Arolwg Bwlio yn 2019-2020 oherwydd adnoddau a blaenoriaethau eraill.

Cyhoeddwyd Canllawiau Gwrth-fwlio Statudol gan Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Tachwedd 2020. Mae llawer mwy o bwyslais ar fwlio ar sail hunaniaeth yn y ddogfen newydd a bydd polisi'r Cyngor yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r canllawiau statudol newydd.

## Pecyn Cymorth Trawsryweddol

Roedd grwpiau ffocws i ymgynghori â phobl ifanc ar y pecyn cymorth wedi'u hamserlennu i gael eu cynnal ym mis Ebrill 2020 fel bod modd clywed eu lleisiau yn y ddogfen, ond oherwydd y pandemig bu'n rhaid canslo'r sesiynau hyn. Mae swyddogion yn ystyried anfon y pecyn cymorth drafft allan i ymgynghoriad a gobeithio y gallant gynnal y sesiynau gyda'r bobl ifanc ar dydddiad diweddarach.

## Hyfforddiant ar gyfer Ysgolion a lleoliadau Pobl Ifanc

Mae ysgolion ym mwrdeistref sirol Caerffili yn cael hyfforddiant drwy Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan (RGCYCG) a ddarperir gan Heddlu Gwent. Mae'r sesiynau hyn yn ymdrin â phynciau megis parch, bwlio a materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn y fwrdeistref sirol i'r myfyrwyr.

Mae'r rhaglen yn enghraifft o Weithio mewn Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a phedwar Heddlu Cymru ac mae'n cynnwys cyfres o fewnbynnau Atal Troseddu/rhoi gwersi a mentrau Plismona Cefnogol mewn Ysgolion sydd â'r nod o wneud y canlynol:

- addysgu plant a phobl ifanc am y niwed y mae camddefnyddio sylweddau yn ei achosi i'w hiechyd, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach
- hyrwyddo egwyddorion dinasyddiaeth gadarnhaol drwy gyfrwng addysg
- sicrhau gostyngiad mewn lefelau troseddu ac anhrefn ymhlith ein cymunedau ifanc.

Bydd yr holl sesiynau yn parhau i gael eu cyflwyno drwy apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw â Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu. Mae Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu yn darparu amrywiaeth o weithgareddau Plismona Cefnogol mewn Ysgolion a diogelu, gan gynnwys datrys achosion drwy ddefnyddio'r Polisi Trechu Troseddau Mewn Ysgolion a dulliau adferol. Mae Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu hefyd wedi cyflwyno amrywiaeth o wasanaethau ysgol sy'n briodol o ran oedran.

DRAFT

Rhagwelir y bydd rôl diogelu ychwanegol yn meithrin cysylltiadau rhwng y cymunedau lleol a'r cymunedau ysgol yn ogystal ag asiantaethau partner, e.e. y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Gwasanaethau Diogelu ac ati.  Mae hyn yn berthnasol iawn i achosion o fwlio gwahaniaethol sy'n seiliedig ar hunaniaeth lle mae troseddau wedi cael eu cyflawni hefyd o bosibl.

Cefnogir RGCYCG yn llawn gan wefan benodol – School Beat sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth a chanllawiau i athrawon, disgyblion a rhieni.

Yn ystod 2019-2020, cyflwynwyd 1,046 o wersi, gan greu 28,355 o gysylltiadau â disgyblion.  Cyflwynwyd 498 o wersi a oedd yn ymdrin â bwlio, amrywiaeth, gorfodi a pharch neu ddiffyg parch, gan greu 10,148 o gysylltiadau â disgyblion.  Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys cyflwyno 32 gwasanaeth i 6601 o ddisgyblion.

Mae Tîm Cydraddoldeb, Iaith Gymraeg ac Ymgynghori'r cyngor wedi darparu hyfforddiant i staff ysgolion a llywodraethwyr ac wedi hyrwyddo digwyddiadau sy'n codi ymwybyddiaeth fel Mis Hanes LDHT, Mis Hanes Pobl Dduon ac ati.

Mae staff y Cyngor yn ymwybodol o asiantaethau partner ac maent yn gallu cyfeirio ysgolion a gweithwyr ieuenctid at adnoddau megis gweithdai a deunyddiau cwricwlwm gan asiantaethau megis Umbrella Cymru, Stonewall Cymru, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS) a'u helpu i gael gafael arnynt.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda rhanddeiliaid (ysgolion, gwasanaeth ieuenctid, pobl ifanc, awdurdodau cyfagos, asiantaethau partneriaeth ac ati) i ddatblygu canllawiau sy'n adlewyrchu newidiadau i ofynion cyfreithiol neu anghenion pobl ifanc yn yr awdurdod, e.e. datblygu cynlluniau a pholisïau mewn perthynas â newidiadau i'r cwricwlwm Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd er mwyn mynd i'r afael ag addysg rhywioldeb, iechyd a chydberthnasau sy'n cyfeirio'n amlwg at rywioldeb a rhywedd, mewn ffyrdd sy'n briodol o ran oedran.

Mae Spectrum Cymru wedi bod yn cyflwyno gweithdai hyfforddiant addysgol i ddisgyblion a staff mewn ysgolion ar yr Agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).  Derbyniodd cyfanswm o 14 ysgol yn y fwrdeistref sirol yr hyfforddiant hwn yn ystod 2019-2020, a derbyniodd 2 ysgol ymgynghoriadau staff.

Mae 3 ysgol gynradd yn y fwrdeistref sirol wedi cychwyn rhaglen gwrth-fwlio KIVA yn eu hysgolion. Mae'r pecyn cymorth gwrth-fwlio hwn sy'n cael ei ddysgu yn CA2 gyda'r nod o atal unrhyw ddigwyddiadau bwlio. Mae hefyd yn darparu arolwg a chanlyniadau disgyblion diwedd blwyddyn. Ar hyn o bryd rydym yn aros i'n cyfres lawn gyntaf o ddata o'r ysgolion hyn ddadansoddi'r effaith.

DRAFT

Roedd cynlluniau'n cael eu gwneud i gynnal 'Gwobr Diana - rhaglen gwrth-fwlio' am y tro cyntaf erioed yng Nghaerffili, yn Ysgol Idris Davies 3-18 oed ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, bu'n rhaid canslo hyn oherwydd pandemig Covid-19. Pan fydd yn bosibl byddwn yn edrych ar aildrefnu'r rhaglen hon, a fydd yn rhoi cyfle i 10 ysgol uwchradd yn y fwrdeistref sirol dderbyn hyfforddiant fel rhan o'r broses ddyfarnu.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor yn rhedeg Grŵp Ieuenctid LHDTC+ a elwir yn "Guys, Gals and Non-binary Pals" (GGNP). Mae'r grŵp yn fenter unigryw sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed sy'n uniaethu fel LHDTC+. Mae'r prosiect llawn amser hwn yn rhoi mynediad at gymorth, gwybodaeth ac eiriolaeth i bobl yn y fwrdeistref sirol a'r ardaloedd cyffiniol. Cynigir amgylchedd diogel a chyfrinachol i bobl ifanc fynegi eu hunain a chael cyfle i ymgysylltu a chymdeithasu â phobl ifanc sy'n rhannu'r un profiadau a heriau.

## Mynegai Cydraddoldeb Addysg – Stonewall Cymru

Mae Mynegai Cydraddoldeb Addysg Stonewall yn sicrhau bod mesurau ar waith a bod camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i gefnogi pobl ifanc Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol sy'n byw yn y gymuned leol. Mae'r mesurau yn ymwneud â pha mor dda y mae awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

- helpu a chefnogi ysgolion i fod yn gynhwysol
- dathlu gwahaniaeth
- atal a mynd i'r afael â bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig.

Mynegai Cydraddoldeb Addysg Stonewall yw'r unig adnodd cenedlaethol a ddefnyddir i feincnodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn y maes hwn. Mae'n ffordd effeithiol o ddangos arferion da ond hefyd sylweddoli beth yw'r bylchau lle mae angen gwella a'u deall. Yn ôl data 2018, roedd Caerffili yn y safle cyntaf yng Nghymru o ran arfer cynhwysol, ac yn 19$^{eg}$ a draws y DU.

Ni chynhaliodd Stonewall archwiliad cynhwysiant ar gyfer 2018-2019 gan eu bod yn ailstrwythuro eu model Mynegai Cydraddoldeb. Mae'r dyddiad cau ar gyfer archwiliad 2019-2020 wedi'i ymestyn i fis Rhagfyr 2020 o ganlyniad i bandemig Covid-19.

## Cydlyniad Cymunedol ac Addysg

Mae swyddogion addysg wedi bod yn cyfarfod gyda'r swyddog cydlyniad cymunedol rhanbarthol i drafod sut gall eu gwaith hwy gynnal gwaith ei gilydd. Fe sefydlwyd Prosiect Gefeillio, sy'n golygu gwneud cysylltiadau rhwng dosbarthiadau o blant mewn ysgolion sydd ag amrywiaeth yn eu dalgylchoedd. Mae'r amrywiaeth yn cynnwys amrywiaeth ethnig, diwylliannol a chymdeithasol-economaidd, i greu

cefndir ystyrlon ar gyfer ymchwilio i beth yw hunaniaeth. Yn anffodus mae'r prosiect wedi'i ohirio tan ar ôl y pandemig. Gall gefeillio gael ei ddefnyddio i adeiladu perthnasau er mwyn ymchwilio beth sy'n debyg rhyngom ac i ymchwilio i amrywiaeth. Mae canllawiau ar gyfer hyn yn cael eu datblygu, i gael eu cyhoeddi cyn hir.

Gan fod y tîm Cydlyniad Rhanbarthol yn canolbwyntio'n benodol ar hyrwyddo cynhwysiad a gweithredu ar ran amrywiaeth, rydym ni'n parhau i gydweithio gyda swyddogion arweiniol cydraddoldeb ar nodau a themâu rydym yn eu rhannu. Yn fwy diweddar, mae hyn wedi cynnwys cyd-drefnu gwaith yn canolbwyntio ar Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb, Wythnos Ymwybyddiaeth Ffoaduriaid a Diwrnod Cofio'r Holocost.

I nodi Diwrnod Cofio'r Holocost eleni, roedd tair brif araith oddi wrth rai wnaeth oroesi'r Holocost. Roedd dwy o'r areithiau hynny wedi'u hanelu tuag at blant a phobl ifanc, gyda chynrychiolaeth o bob ysgol yng Ngwent fel ein bod yn gallu ymwneud gyda dros 200 o ddisgyblion. Fe wnaethom hefyd gynnal sesiynau i gymunedau a rhanddeiliaid, a chyd-drefnu munud o dawelwch ar draws yr awdurdod fel teyrnged briodol i nodi 75 mlynedd ers y rhyddhau yn Auschwitz.

Yn rhanbarthol, fe wnaethom dynnu sylw sylweddol at Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb – i gydnabod bod yr Wythnos hon yn 2019 yn digwydd ar y dyddiad gadael a fwriadwyd ar gyfer Brexit. Roedd rhan o'n hymdrechion rhanbarthol ni'n cynnwys dyrannu £5,000 o'r gyllideb cydlyniad rhanbarthol i brosiectau ymwybyddiaeth lleol. Aeth £3,000 i gefnogi cynlluniau rhanbarthol wedi'u seilio ar y gymuned (manylion wedi'u rhestru isod). Fe wnaethom brynu llenyddiaeth a deunydd marchnata i gefnogi stondinau dros dro mewn archfarchnadoedd a llyfrgelloedd lleol ac adeiladau dinesig.

Hefyd roeddem ni'n cydweithio gyda rhai ysgolion ar draws y rhanbarth, gan weithio gyda phlant a phobl ifanc i gynhyrchu celf yn cyfleu neges o gynhwysiad, amrywiaeth a derbyn.

Roedd y Cyfryngau Cymdeithasol yn chwarae rhan sylweddol, gan bostio negeseuon gydol yr wythnos, a chafwyd yr un peth ar gyfer yr holl staff gyda negeseuon ebost. Yn gorfforaethol roeddem ni'n bartneriaid gyda ***Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth*** *a* lansio Diwrnod Gwisgo Coch. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chlybiau rygbi lleol sydd wedi hyrwyddo Diwrnod Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yn eu llenyddiaeth cefnogi a thrwy eu sianelau cyfryngau cymdeithasol.

I ddilyn gwelwch restr o brosiectau Gorllewin Gwent gafodd eu hariannu trwy gyfrwng y gyllideb cydlyniad i gefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ac a gyflawnwyd yn y fwrdeistref sirol.

DRAFT

- **Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange ac Ysgol Lewis, Pengam**
  Roedd y prosiect hwn yn cynnwys cynnal grŵp o fyfyrwyr o Indonesia fel rhan o raglen breswyl i gyfoedion. Roedd yn wythnos o weithgareddau yn ymchwilio i ddiwylliannau ei gilydd. Roedd yn cynnwys teithiau dydd, dawns a chelf. Bu Swyddogion Cydlyniad yn mynychu'r digwyddiad.

- **Materion gwirfoddoli**
  Bu grŵp o bobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio ar brosiect ymchwil i faterion troseddau casineb ar gludiant cyhoeddus a ddioddefwyd gan bobl oedd yn dweud bod ganddynt anabledd. Fe ddatblygwyd hyn ar ôl i arolwg cynharach awgrymu bod canran uchel o deithwyr oedd yn dweud bod ganddynt anabledd wedi dioddef camdriniaeth wrth deithio ar gludiant cyhoeddus. Roedd y grŵp gwnaeth yr ymchwil hwn wedi teithio ar draws Gorllewin Gwent yn ystod yr wythnosac wedi cofnodi eu profiadau. Ar y diwedd, daeth yr holl wirfoddolwyr ifanc at ei gilydd i gronni eu casgliadau a datblygu rhestr o argymhellion i'w gyrru i Weinidog Cludiant Cymru i'w hystyried.

- **Menter Gymdeithasol Rec Rock**
  Roedd y prosiect hwn yn ymgysylltu gyda'r gymuned i adeiladu sgiliau a hyder trwy fiwsig, mewn cydweithrediad gyda Llyfrgell Bargoed. Fe greodd y trefnwyr amserlen o weithgareddau i redeg gydol mis Hydref 2019. Roedd y rheiny'n cynnwys ysgrifennu a recordio cân i ddathlu amrywiaeth, a hefyd hwyluso dau berfformiad byr i ddathlu cyfraniad artistiaid duon i'r diwydiant miwsig (un wedi'i dargedu tuag at blant ysgolion cynradd a'r llall yn agored i'r cyhoedd).

## Cynllun Statws Preswylwyr Sefydlog yr Undeb Ewropeaidd

Bu'r Cyd-drefnydd Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol yn briffio swyddogion allweddol yn ystod y cyfnod cyn lansio Cynllun Statws Preswylwyr Sefydlog yr Undeb Ewropeaidd. Roedd mapio symudiadau mudo, i ddangos y mudo i mewn i bob awdurdod, hefyd yn cefnogi'r cyngor i adeiladu gwytnwch i ymdopi gyda Brexit.

Yn ystod y cyfnod hwn, aeth ymdrech sylweddol i godi ymwybyddiaeth o Gynllun Statws Preswylwyr Sefydlog yr Undeb Ewropeaidd a chefnogi fforymau lleol oedd yn gweithio ar wytnwch ar gyfer Brexit, i ddatblygu'r trafodaethau hynny gyda dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd oedd yn byw yn y fwrdeistref.

Fel rhan o hynny, fe gynhaliodd y Swyddogion Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol ddigwyddiadau ymwybyddiaeth o'r Cynllun Statws Preswylwyr Sefydlog. Roedd rheiny'n rhedeg mewn cydweithrediad gyda phartneriaid trydydd sector oedd yn gallu darparu cyngor ar fewnfudo (gyda chofrestriad IOSC). Cefnogwyd hyn trwy gyfrwng y



DRAFT

gyllideb Cydlyniad Cymunedol, gan argraffu llenyddiaeth ar y Cynllun Statws Sefydlog mewn nifer o ieithoedd Ewropeaidd, ar gael i bob adran ac ysgol ac mewn adeiladau cymunedol. Roeddem hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Addysg Lleol ar gyfleu negeseuon allweddol i deuluoedd roedd yr awdurdod yn gwybod eu bod yn Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd.

Bu'r Tîm Cydlyniad Cymunedol yn cyd-gysylltu gyda nifer o ysgolion ar draws rhanbarth Gorllewin Gwent, i ddarparu gweithdai gwrth-wahaniaethu i dros 500 o ddisgyblion. Mae'r sesiynau hyn yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth, a chanolbwyntio ar negeseuon cadarnhaol am amrywiaeth. Mae'r sesiynau hefyd o gymorth i hysbysu athrawon o beth yw bwlio ar sail hunaniaeth. Roedd hyn yn cynnwys nifer o sesiynau hyfforddi ar amrywiaeth ar gyfer cyfnod allweddol 2, i Ysgol Gynradd Treffilip ac Ysgol Gynradd y Rhosyn Gwyn. Darparwyd sesiynau pellach i flynyddoedd 7, 8 a 9 yn Ysgol Lewis Pengam, Ysgol Gyfun Heolddu a'r 'Ganolfan' yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni - Campws y Gwyndy.

## Rhaglen Adsefydlu Fyd-eang

Mae Caerffili'n parhau i gefnogi teuluoedd o ffoaduriaid. Bu'r Cyd-drefnydd Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol yn parhau i ddarparu cefnogaeth gyson mewn ymateb i bob agwedd o'r rhaglen/rhaglenni. Mae'r Cyd-drefnydd ar hyn o bryd yn goruchwylio a chefnogi'r Cyngor wrth i'r awdurdod hwn barhau i gymryd rhan yn y ddau gynllun.

Mae'r Cydlynydd Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol wedi ysgrifennu adroddiad ar gyfer y Cabinet yng Nghaerffili ar y gwaith yn y dyfodol gydag adsefydlu ffoaduriaid yn yr ardal, sef y Rhaglen Adsefydlu Fyd-eang, a fydd yn nodi casgliad y rhaglenni ailsefydlu cyfredol. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn ym mis Tachwedd 2020 oherwydd y pandemig ac mae'r Cyngor wedi cytuno i gymryd rhan yn y Rhaglen Ailsefydlu Byd-eang newydd. Yn y cyfamser, bydd y gefnogaeth yn parhau am 5 mlynedd i'r teuluoedd sydd wedi cyrraedd yn barod trwy gyfrwng y Rhaglen Adsefydlu Pobl Agored i Niwed.

Dyma rywfaint o'r gwaith mae'r Cyd-drefnydd wedi'i wneud i gefnogi'r rhaglen:

- Rheoli'r gefnogaeth ESOL ranbarthol a gafwyd i sicrhâi bod pob teulu'n cael darpariaeth gyson
- Parhau i gynnal cyswllt gyda'r tîm gweithwyr achos yn y gefnogaeth maen nhw'n ei darparu i deuluoedd; mae hynny'n cynnwys datblygu dulliau gweithredu gyda'r tîm i oresgyn ymddygiad heriol/anghenion cymhleth ayb.

## Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at fodloni ei ofynion o dan y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol. Gweler **Adran 10. Amrywiaeth yn y Gweithlu** am fanylion am hyfforddiant.

DRAFFT

# Mynd i'r Afael â'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Cyhoeddodd y Cyngor ei Ddatganiad am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer 2019. Cyhoeddir y data ar wefan y Cyngor ac un o wefannau'r llywodraeth erbyn 30 Mawrth bob blwyddyn. Roedd oedi wrth gyhoeddi Datganiad 2019 oherwydd pandemig Covid-19.

**Cyfanswm Nifer y Cyflogeion a gynhwyswyd yn y data hyn: 6666**

**Nifer y Menywod:** **4684 (70.26%)**
**Nifer y Dynion:** **1982 (29.73%)**

## Tabl 2 – Crynodeb o'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

| | **%** |
|---|---|
| 1. Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau – Cyflog arferol | 8.3% |
| 2. Cyfradd gymedrig yr Awr – Cyflog arferol (Dynion/Menywod) | (£12.65 / £11.60) |
| 3. Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau – Cyflog arferol | 10.3% |
| 4. Cyfradd ganolrifol yr awr – Cyflog arferol (Dynion/Menywod) | (£11.24 / £10.08) |
| 5. Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau – Tâl bonws yn y 12 mis yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | 0% |
| 6. Bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau – Tâl bonws yn y 12 mis yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | 0% |
| 7. Cyfran y cyflogeion sy'n ddynion ac yn fenywod y talwyd bonws iddynt yn y 12 mis yn dod i ben 31 Mawrth 2020: | Dynion - 0<br>Menywod - 0 |

**Noder:** Yn Nhabl 2, ystyr 'Cyflog Arferol' yw cyflog sylfaenol; lwfansau; tâl am wyliau; a thâl premiwm ar gyfer sifftiau. Nid yw'n cynnwys tâl goramser; tâl diswyddo; tâl yn lle gwyliau; na chydnabyddiaeth anariannol. Nid yw'r Cyngor yn cynnig tâl fesul darn o waith na chynlluniau cymhelliant bonws.

## Tabl 3 - Cyfran y cyflogeion gwrywaidd a benywaidd ym mhob chwartel

| **Chwartel** | **Benyw % (Pobl)** | **Gwryw % (Pobl)** |
|---|---|---|
| **Chwartel (isaf) cyntaf (£8.50 - £9.01)** | 87.5% (1458) | 12.5% (208) |
| **Ail chwartel (£9.02 - £10.65)** | 66.3% (1105) | 33.7% (562) |
| **Trydydd chwartel (£10.66 – £13.77)** | 64.4% (1072) | 35.6% (594) |
| **Pedwerydd chwartel (uchaf) (£13.18 – £74.61)** | 62.9% (1049) | 37.1% (618) |

DRAFT

Fel y dengys **Tabl 3** mae'r data yn nodi bod nifer sylweddol uwch o fenywod na dynion yn llenwi swyddi ym mhob chwartel am mai gweithlu benywaidd yn bennaf yw gweithlu'r Cyngor.

Fel cyfran, dengys y data o ran y gweithlu gwrywaidd (1982):

- bod 10.49% yn llenwi swyddi yn y chwartel isaf,
- 28.36% yn yr ail chwartel,
- 29.97% yn y trydydd chwartel a
- 31.18% yn y pedwerydd chwartel.

Mewn cymhariaeth, ymhlith y gweithlu benywaidd (4684):

- mae 31.13% yn llenwi swyddi yn y chwartel isaf,
- mae 23.59% yn yr ail chwartel,
- 22.89% yn y trydydd chwartel ac
- mae 22.39% yn y pedwerydd chwartel.

Mae'r Cyngor yn hyderus nad yw'r blwch cyflog rhwng y rhywiau i'w briodoli i'r ffaith ei fod yn talu cyflogau gwahanol i gyflogeion gwrywaidd a benywaidd am wneud yr un gwaith neu waith cyfatebol.  Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau i'w briodoli i rolau y mae dynion a menywod yn gweithio ynddynt ar hyn o bryd a'r cyflogau a delir am gyflawni'r rolau hyn.

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn adlewyrchu achosion o fwlch cyflog rhwng y rhywiau a welir mewn cymdeithas. Er enghraifft, mae ymchwil wedi nodi, er bod rhieni yn gynyddol hyblyg, mai menywod sy'n gyfrifol, a hynny'n anghymesur, am ofal plant o hyd. Mae'n ffaith o fewn y data hyn fod y mwyafrif helaeth o'r swyddi rhan-amser yn cael eu dal gan fenywod ac mai'r swyddi hyn yw'r rhai lle y telir cyflogau yn y chwartelau isaf. Mae 1244 o’r swyddi hyn yn swyddi Graddfa Un yn strwythuur cyflog wedi’I werthuso y Cyngor ac wedi’u llenwi gan fenywod ym meysydd glanhau, arlwyo a chlybiau brecwast. Mae cyfloeodd rhan amser yn parhau i ddenu ymgeiswyr sy’n fenywod yn y mwyafrif llethol o achosion.

Mae gwasanaethau'r Cyngor yn amrywiol ac yn cynnwys glanhau, arlwyo, casglu sbwriel ac ailgylchu, tai, gwasanaethau cymdeithasol/gwasanaethau gofal, hamdden, ieuenctid, llyfrgelloedd, gwasanaethau addysg, gan gynnwys addysg oedolion, gwasanaethau technegol, cynllunio a phriffyrdd.

I weld y datganiad llawn gweler eitem agenda 8 – Agenda Cabinet - 11 Mawrth 2020

DRAFT

# Gwella Mynediad Corfforol

## Rhaglen Waith Mynediad i Bobl Anabl

Mae Is-adran Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol y Cyngor wedi parhau i gyflwyno gwelliannau er mwyn sicrhau bod adeiladau cyhoeddus yn hygyrch i bawb drwy Raglen Waith Mynediad i Bobl Anabl.  Bob blwyddyn, trefnir rhaglen waith er mwyn diweddaru a gwella'r gallu i gael mynediad corfforol i amrywiaeth o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor.

Yn ystod 2019-2020, roedd £65,000 o ariannu ar gael i gefnogi gwaith gwella mynediad i bobl anabl. Roedd y gwaith yn cynnwys:

**Addysg**

- Darparu canllawiau rheiliau o fewn rhai adeiladau ysgolion – **£3,000**

**Cymunedau**

- Mynediad ramp o allanfeydd tân mewn rhai canolfannau cymunedol – **£15,000**
- Teclyn codi ar gyfer pwll nofio mewn canolfan hamdden – **£6,000**
- Gwelliannau i hygyrchedd prif fynedfeydd safleoedd addysg oedolion – **£19,000**
- Gwelliannau i hygyrchedd prif fynedfeydd canolfannau ieuenctid – **£4,000**
- Darparu cilfachau parcio ceir i'r anabl mewn parciau – **£3,000**
- Hygyrchedd meysydd parcio mewn swyddfeydd corfforaethol – **£2,000**

**Gwasanaethau Cymdeithasol**

- Gwell darpariaeth toiledau a gwelliannau i brif ddrysau'r fynedfa mewn cyfleusterau gofal 2 ddiwrnod ac 1 cartref gofal preswyl – **£13,000**

DRAFT

# Gwella Mynediad Cyfathrebu

## Gwefan y Cyngor

Mae'r wefan yn 100% ddwyieithog o ran cynnwys tudalennau gwe. Cynhaliwyd archwiliad llawn o'r wefan yn 2019, yn dilyn Ymchwiliad gan y Comisiynydd Iaith (CSG304). Er gwaethaf ein hymdrechion gorau i gyflawni'r holl gamau gorfodi, ni allwn fod yn sicr bod y testun Saesneg a Chymraeg ar ein gwefan yn cyfateb yn llwyr. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod hyn yn cael ei wirio a'i fonitro'n barhaus, a'n bod yn gweithredu ar unrhyw anghysondebau fel blaenoriaeth. Mae'r adolygiad o wefan y Cyngor yn weithgaredd parhaus, ac mae'r gweithgor a sefydlwyd yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i gynnal cynnydd.

Rydym yn gweithio tuag at y ddeddfwriaeth hygyrchedd newydd bydd yn ei gwneud yn ofynnol i wefan y Cyngor gydymffurfio â *Chanllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe Consortiwm y We Fyd-Eang 2.1 Lefel AA* erbyn 23 Medi 2020. Rydym wrthi'n archwilio'r wefan ac yn ymdrechu i wneud y diwygiadau angenrheidiol i cyrraedd y cydymffurfiad hwn.

Fel rhan o'r un ddeddfwriaeth, byddwn yn cyhoeddi datganiad hygyrchedd sy'n cynnwys manylion am ble mae'r wefan yn cydymffurfio â WCAG 2.1 AA yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw feysydd nad ydynt yn cydymffurfio. Bydd y cynllun gweithredu i ddatrys y meysydd hyn nad ydynt yn cydymffurfio hefyd yn cael ei ddarparu.

Ar y wefan, o dan yr opsiwn 'Hygyrchedd', rhoddir dolenni i ganllawiau ar y meysydd canlynol:

- gwneud eich llygoden yn haws i'w defnyddio
- defnyddio'ch bysellfwrdd i reoli'ch llygoden
- dulliau amgen yn lle defnyddio bysellfwrdd a llygoden
- mwyhau maint y testun yn eich porwr gwe
- newid lliwiau testun a chefndir
- sut i chwyddo'ch sgrin
- darllenwyr sgrin a phorwyr sy'n siarad.

Bydd Grŵp Hygyrchedd hefyd yn cael ei sefydlu gyda swyddogion yn gyfrifol am ysgrifennu a/neu gyhoeddi dogfennau ac adroddiadau ar wefan y Cyngor. Bydd y grŵp yn rhannu gwybodaeth â'i gilydd wrth i ni ymdrechu i sicrhau bod yr holl ddogfennau, y wefan ac apiau symudol yn cydymffurfio yn unol â'r rheoliadau.

DRAFT

## Mynediad at wybodaeth

Cafodd y wefan y nifer canlynol o drawiadau / ymweliadau rhwng Mehefin 2019 - Ebrill 2020

- **Ymweliadau â thudalennau Saesneg** - 4,284,754
- **Ymweliadau â thudalennau Cymraeg** - 46,949

- **Nifer y tanysgrifwyr i'r fersiwn Saesneg o fwletinau Gov Delivery**
  34,445 o danysgrifwyr gyda 136 o fwletinau wedi'u hanfon a chyfradd ymgysylltu o 82.30%

- **Nifer y tanysgrifwyr i'r fersiwn Gymraeg o fwletinau Gov Delivery**
  313 o danysgrifwyr gyda 132 o fwletinau wedi'u hanfon (llai oherwydd y gwall technegol sydd wedi'i gywiro) a chyfradd ymgysylltu o 71.30%

## Data Cyfryngau Cymdeithasol

### Tabl 4 – Nifer dilynwyr sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn ystod 2019-20

| Sianel Cyfryngau Cymdeithasol | Nifer dilynwyr | Nifer postiadau |
|---|---|---|
| Twitter | 18,600 | 4,761 |
| Instagram | 2,897 | 4,761 |
| Facebook | 25,984 | 4,761 |
| LinkedIn | 4,186 | 180 |

DRAFT

# Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol

Fe barhaodd Ymgysylltu a Chyfranogiad ar raddfa dda ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ystod 2019/2020, yn fewnol gyda'n staff ac yn allanol gyda'n cymunedau a'n partneriaid.

Wrth i'r rhaglen drawsnewid 'Tîm Caerffili - yn Well Gyda'n Gilydd' gyflymu wrth ei gwaith, cafodd yr Uwch Swyddog Cyfathrebu eu secondio i'r tîm Trawsnewid - i ddarparu arbenigedd ar gyfathrebu ac ymgysylltu i gefnogi'r flaenoriaeth strategol allweddol hon.

Mae Strategaeth Drawsnewid 'Tîm Caerffili – yn Well Gyda'n Gilydd', a gadarnhawyd gan y Cyngor yn haf 2019, yn tynnu sylw at ymgysylltu a gweithio gyda'n cymunedau fel elfen hollbwysig o'r rhaglen. Roedd y strategaeth yn pwysleisio y byddwn yn "defnyddio arferion gorau'r Gymdeithas Cyfranogiad Cyhoeddus Ryngwladol i hysbysu, ymgynghori, cynnwys, cydweithio a grymuso ein cymunedau".

Ar gyfer hyn, datblygwyd a chadarnhawyd Fframwaith 'Ymgynghori ac Ymgysylltu' Tîm Caerffili, a gadarnhawyd gan Gabinet y cyngor yn Chwefror 2020, i ddisgrifio sut i weithredu ar gyfer dealltwriaeth gyffredin i wella ymhellach ar yr ymgysylltu. Mae'n dangos yr egwyddorion a'r safonau ar gyfer sut bydd y cyngor yn ymgysylltu *'i greu disgwyliadau clir a chyffredinol sy'n galluogi canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni'.*

Yr egwyddorion tu mewn i'r fframwaith yw:

- Grymuso trigolion lleol i gael mwy o ddylanwad dros y materion sy'n effeithio arnyn nhw
- Cynyddu a chryfhau rôl cymunedau yn y ffordd rydym yn byw, gweithio ac ymweld â Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu'n diwallu'r anghenion hynny a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn unol â blaenoriaethau cytunedig
- Byddwn yn cefnogi cymunedau i weithredu trwy eu helpu i nodi anghenion a'u cefnogi i ddatblygu atebion a arweinir gan y gymuned.

Mae egwyddorion strategol Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau penodol, ac Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru, wedi'u gosod i mewn i bob rhan o'r ddogfen.

Yn fewnol, mae'r cyngor wedi cynnal amrediad o weithgareddau ymgysylltu a chyfranogi gyda staff ar draws y sefydliad, yn cynnwys cyfres o sesiynau yn Ionawr/Chwefror 2020 dan arweiniad y thri Cyfarwyddwr Corfforaethol. Roedd y

DRAFT

sesiynau hyn yn cynnwys sesiynau rhyngweithio, lle cafodd aelodau staff eu hannog i gynnig syniadau ac atebion o ran sut gellid gwneud eu meysydd hwy o waith yn fwy effeithiol a/neu effeithlon er budd i bawb.

Mae’r adborth hwn wedi bod yn hanfodol i helpu i siapio’r ddarpariaeth o wasanaethau mewn nifer o feysydd allweddol.

Mae gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu byw yn parhau i gael eu hyrwyddo’n rhagweithiol ar dudalen flaen gwefan y Cyngor, yn ogystal ag ar draws ei sianelau digidol. Hefyd yn cael eu cofnodi ar y wefan mae manylion pellach o’r gweithgareddau ymgysylltu cyfredol (yn cynnwys linciau i arolygon byw lle bo’n briodol) a chanlyniadau gweithgareddau ymgysylltu diweddar.
https://www.caerphilly.gov.uk/involved/Consultations.aspx

Yn ystod 2019/2020, fe gynhaliodd y cyngor nifer o ymgynghoriadau allweddol ar lefel gorfforaethol, yn cynnwys:

- Roedd ymgynghori ar Fframwaith ‘Ymgynghori ac Ymgysylltu’ Tîm Caerffili yn digwydd ar yr un pryd ag ymgynghori ar Amcanion Cydraddoldeb drafft y cyngor am 2020-2024. Roedd hynny am fod ymgysylltu a chyfranogiad effeithiol yn sail i nifer o’r amcanion yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor (gweler y rhan nesaf)
- Sgwrs Caerffili – yr ymgynghoriad blynyddol ar gyllideb y cyngor, sy’n enghraifft o sut bydd y Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i annog cyfranogiad, hyrwyddo ymgynghoriadau a sicrhau bod pob sector o’r gymuned yn gallu rhoi eu barn.

Fel mewn blynyddoedd cynharach, roedd yr holl ohebiaeth hyrwyddo ac ymgynghori oedd ar gael oddi wrth Sgwrs Caerffili’n gwbl ddwyieithog. Roedd gohebiaeth mewn ysgrifen at bob grŵp allweddol fel yr amlinellwyd yng Nghanllawiau Ymgynghori a Monitro’r cyngor.

Roedd y gweithgareddau wyneb yn wyneb yn cynnwys ymgysylltu mewn canol trefi/archfarchnadoedd; sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd ar draws y fwrdeistref a chyfarfod Panel Safbwynt gyda chefnogaeth cyfryngau digidol (yn cynnwys Facebook, Trydar a NewsOnline), cynnwys fideo a chynnwys ar y we, Newsline, negeseuon ebost wedi’u targedu at randdeiliaid ac arolygon ar bapur ac ar lein.

Bu Menter Iaith Caerffili’n hwyluso trafodaeth wyneb yn wyneb yn Gymraeg, a bu aelodau o Rwydwaith Rhieni Caerffili ac Aelodau’r Fforwm Ieuenctid, yn ogystal ag aelodau o’r cyhoedd yn ehangach hefyd yn mynychu cyfarfod o Banel Safbwynt y Cyngor.

DRAFT

Ar gyfer sesiynau galw heibio, gofynnwyd i drigolion gysylltu â ni ymlaen llaw cyn dod yno os oedd ganddynt unrhyw anghenion penodol fel rhai o ran mynediad, lŵp clyw, angen am gyfleusterau cyfieithu neu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg.

I weld yr adroddiad llawn, cliciwch ar y linc yma – Sgwrs Caerffili 2019-2020

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 – Y broses o Ddatblygu ac Ymgynghori

Roedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili baratoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol am 2020-2024, fel pob awdurdod lleol arall yng Nghymru. Roedd angen cyhoeddi hwn erbyn Ebrill 2020, ond cafwyd estyniad ar hynny oherwydd y pandemig, a chymeradwywyd y Cynllun newydd gan y Cyngor llawn ym mis Hydref 2020.

Cafodd y Cynllun ei ysgrifennu i egluro wrth staff, aelodau etholedig, trigolion a rhanddeiliaid sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n bwriadu cyflawni ei ymrwymiadau cydraddoldeb wrth barhau i fod yn sefydliad cynhwysol nad yw'n goddef gwahaniaethu o unrhyw fath.

Roedd y Cyngor yn adeiladu ar yr ymrwymiad oedd yn bodoli'n barod a'i waith cynharach i gael cydraddoldeb. Fe ymgymrodd ag amrediad o waith i gasglu tystiolaeth ac i ymgysylltu cyn ymgynghori, er mwyn datblygu cynnwys y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a datblygu Amcanion Cydraddoldeb drafft mewn ffordd ystyrlon:

- Adolygu gofynion y ddeddfwriaeth
- Adolygu adroddiadau a chanllawiau allanol oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol y Cyngor a'r dogfennau a chanllawiau cysylltiedig
- Adolygu gwaith ymgynghori cynharach a ymgymerwyd gan y Cyngor o ran materion cydraddoldeb
- Dadansoddi setiau data lleol a chenedlaethol
- Adolygu dogfennau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill
- Ymgysylltu gyda rheolwyr darparu gwasanaethau tu mewn i'r Cyngor
- Trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru, o ran y materion cydraddoldeb allweddol cyfredol a rhai i'r dyfodol y gellid eu hystyried yn amcanion cydraddoldeb.

Wedyn cafwyd cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar yr amcanion cydraddoldeb drafft yn y Cynllun.

DRAFT

Diben yr ymgynghori ffurfiol a ddigwyddodd oedd cael barn trigolion, aelodau etholedig, staff a rhanddeiliaid eraill ar yr amcanion drafft a amlinellwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft, a gweld beth oedd y camau mwyaf priodol i helpu'r Cyngor i gyflawni'r amcanion hynny, ar ôl cytuno arnynt. Bydd y ffordd hon o weithredu'n helpu i ddangos camau gweithredu ystyrlon wedi'u seilio ar yr angen a welwyd, ac yn unol gyda'r angen yn ôl Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymgynghori'n gofyn yn benodol i bobl roi eu barn ar bob un o'r amcanion drafft isod:

1. Deall a dileu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gyrchu gwasanaethauGwella
2. Gwella cyfleoedd addysg i bawb
3. Hybu a hwyluso cymunedau cynhwysol a chydlynol
4. Ymgysylltu â thrigolion i'w hannog i gymryd rhan a lleisio barn wrth gynllunio gwasanaethau
5. Sicrhau y gall y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg gael mynediad i wasanaethau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol
6. Creu gweithlu sy'n adlewyrchu a pharchu amrywiaeth y cymunedau yn y fwrdeistref sirol
7. Lleihau'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Fe ddigwyddodd yr ymgynghori ffurfiol am gyfnod o 4 wythnos o 11 Tachwedd 2019 tan 6 Rhagfyr 2019. Roedd yr holl ddogfennau ymgynghori ar gael yn ddwyieithog ac mewn amrywiaeth o ffurfiau, yn cynnwys rhai hawdd i'w darllen a phrint mawr, fel bod pawb a ddymunai'n gallu rhoi eu barn.

Cafodd yr ymgynghori ei hyrwyddo mewn amrywiaeth o ffyrdd ac roedd ar gael ar draws amrywiaeth o lwyfannau. Y prif erfyn ar gyfer ymgynghori oedd holiadur, ond roedd anogaeth i'r rhai gymrodd ran i ymateb mewn nifer o ffyrdd. Bu ymgynghori wyneb yn wyneb gyda grwpiau oedd â diddordeb arbennig yn yr ymgynghori hwn ac sy'n anoddach eu cyrraedd trwy gyfrwng dulliau ymgynghori eraill. Roeddem ni'n ymgysylltu gyda Phobl yn Gyntaf Caerffili, Rhwydwaith Rhieni Caerffili, Cymuned Fyddar Caerffili a Disability CanDo, trwy ddefnyddio grwpiau canolbwyntio wedi'u targedu.

Cafodd yr ymgynghori ei hyrwyddo'n fewnol i aelodau etholedig a chyflogeion a'i rannu'n helaeth gyda:

- cyrff lleol a rhanbarthol gyda diddordeb mewn cydraddoldeb a chyrff partner sector gyhoeddus lleol, trwy ddefnyddio rhestrau dosbarthu ebost ar gyfer cylchredeg yn ehangach
- cyrff trydydd sector lleol trwy gyfrwng Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) er mwyn ei ddosbarthu'n ehangach

DRAFT

- cynghorau tref a chymuned lleol trwy gyfrwng ebost. Roedd gan bob cyngor tref a chymuned gyfarfodydd yn ystod y cyfnod ymgynghori neu'n fuan ar ei ôl.
- cysylltwyd trwy ebost gyda'r rhai a ganlyn a'u hannog i gymryd rhan - aelodau Panel Safbwynt Caerffili, Pobl yn Gyntaf Caerffili, y Swyddog Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol, Menter Iaith Caerffili, Disability Cando, Fforwm 50+ Caerffili, Umbrella Cymru, Stonewall Cymru, Anabledd Cymru, Deaf-Friendly a Gwasanaeth Ieuenctid a Grŵp Ieuenctid LHDTC Gwasanaeth Ieuenctid Bwrdeistref Sirol Caerffili.

I weld y Cynllun, cliciwch ar y linc yma – [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024]

### Pride Cymru 2019 – Cynghorau Balch

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn falch o gael ei gynrychioli ym Mhenwythnos Mawr Pride Cymru yng Nghaerdydd o dan y faner 'Cynghorau Balch'.  Penwythnos Mawr Pride Cymru yw'r dathliad mwyaf o amrywiaeth, cynhwysiant a'r gymuned LHDT+ yng Nghymru, ac mae'n gyfle i bawb, ni waeth beth yw eu hoedran, rhyw, rhywedd neu hil ddod ynghyd a dathlu'r cyfan sy'n gwneud Cymru yn lle mor groesawgar.

Nododd Pride Cymru 2018 chweched flwyddyn rhwydwaith 'Cynghorau Balch', sy'n dwyn ynghyd nifer o gynghorau yn y de, gan dynnu sylw at y gwaith partneriaeth y mae cynghorau yn y rhanbarth yn ei wneud er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb yn y de a dathlu amrywiaeth yn ein cymunedau.







Trefnodd Cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, stondin 'Cynghorau Balch' yn ystod Penwythnos Mawr Pride Cymru.  Ymgysylltodd staff ag ymwelwyr er mwyn trafod sut y gall cynghorau wella ymhellach ar y gwaith y maent yn ei wneud i sicrhau cydraddoldeb i breswylwyr a chyflogeion LHDT+, yn ogystal â chyfeirio pobl at wasanaethau a gynigir gan gynghorau a phartneriaid.

DRAFT

Cymerodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, fel rhan o Gynghorau Balch, ran ym Mhared Pride Cymru am y tro cyntaf gan orymdeithio a dathlu ar strydoedd canol y ddinas.

Mae Cynghorau Balch yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb mewn gwasanaethau cyhoeddus a dileu'r rhwystrau a wynebir gan bobl LHDT.

DRAFFT

# Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

## Safonau'r Gymraeg

Disodlwyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, yng Nghymru mae i'r Gymraeg yr un statws cyfreithiol â Saesneg a rhaid peidio â'i thrin yn llai ffafriol. Nid oes angen i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg mwyach ond, yn lle hynny, mae'n rhaid iddynt bellach gydymffurfio â chyfres genedlaethol o Safonau'r Gymraeg.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio sy'n nodi pa rai o'r 176 o safonau yn y ddeddfwriaeth sy'n gymwys i'r awdurdod lleol, ynghyd ag unrhyw eithriadau a'u dyddiadau gweithredu.

Cofnodir ein cynnydd bob blwyddyn yn **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020**, a gyhoeddir ar ein gwefan. I wel dyr adroddiad cliciwhc yma - Safonau'r Gymraeg.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Cyhoeddir adroddiad monitro blynyddol ar wefan y Cyngor bob haf er mwyn rhoi adroddiad ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r adroddiad blynyddol yn cwmpasu pedwar maes sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ac yn dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac aelodau o'r staff.

Mae'r pedwar maes y mae'n rhaid cyflwyno adroddiad arnynt fel a ganlyn:

- Cwynion gan y Cyhoedd
- Sgiliau Iaith Staff
- Darparu Hyfforddiant cyfrwng Cymraeg
- Recriwtio i Swyddi Gwag

Mae pedwar o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn benodol, sef:

**Amcan Cydraddoldeb 4 -** Gwella Mynediad Cyfathrebu

**Amcan Cydraddoldeb 6 -** Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

**Amcan Cydraddoldeb 10 -** Amrywiaeth yn y Gweithlu

**Amcan Cydraddoldeb 11 –** Cydymffurfiad Corfforaethol

DRAFT

Dyma rai o'r llwyddiannau yn y gwaith gyda'r Gymraeg yn 2019-2020:

- **Rhestr o Enwau Lleoedd wedi'i Safoni** – Gwaith gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i adolygu enwau lleoedd a chytuno ar restr safonol ohonynt ar gyfer y fwrdeistref sirol. Mae'r rhestr yn ystyried defnydd lleol, hanes, ynganiad, gramadeg a sillafiad. Fe ddechreuodd y gwaith hwn yn haf 2018 a daeth i ben yn hydref 2019. Roedd yn cynnwys cael panel o arbenigwyr i edrych ar dystiolaeth o ddefnydd lleol ac ynganiad enwau lleoedd yn y fwrdeistref sirol. Cafodd y gwaith hwn ei weld fel enghraifft o'r arfer gorau yng Nghymru, ac roedd y drafodaeth agored a chynhaliol rhwng y Cyngor a staff y Comisiynydd yn rhan bwysig o hynny. Mae cael rhestr gytunedig yn golygu bydd cysondeb yn y ffordd o sillafu ac ehangu enwau lleoedd lleol yn y dyfodol.

- **Adroddiad Sicrwydd y Comisiynydd 2018-2019** - fe soniwyd am Gyngor Caerffili yn adroddiad sicrwydd blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 'Hawlio Cyfleoedd'. Mae'r adroddiad yn sôn am yr archwiliad o'n Gwasanaethau Iaith Gymraeg ni, roeddem wedi comisiynu Menter Iaith Caerffili i'w wneud, gan ddefnyddio'r canlyniadau i weld lle'r oedd bylchau ac i ddathlu llwyddiannau.

  Mae ein gwaith partneriaeth gyda Menter Iaith Caerffili'n parhau, trwy gysylltiadau sydd yn Strategaeth y Gymraeg, ac mae'n amhrisiadwy o ran rhannau o'n gwaith yn darparu gwasanaethau. Er enghraifft comisiynwyd Menter Iaith Caerffili gan Dwristiaeth i wneud y cyhoeddiadau uchelseinydd yng ngŵyl y Caws Mawr 2019 fel eu bod yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio gyda'r Safonau perthnasol.

- **Cwynion ac Ymchwiliadau** – Dim ond 1 gwyn a gofnodwyd o ran yr iaith Gymraeg yn ystod 2019-2020, a 7 cais am wasanaeth. Gweler y rhan **Cydymffurfiad Corfforaethol**. Gallwn hefyd adrodd na chawsom ddim ymchwiliadau newydd yn ystod 2019-2020, sy'n rhyfeddol ac yn arwydd bod y gwaith sydd wedi digwydd i gydymffurfio gyda'r Safonau'n dechrau dangos ei werth.

## Diwrnod Shwmae / Su'mae

Ymunodd staff Cyngor Caerffili â miloedd o bobl a sefydliadau ledled Cymru i nodi Diwrnod Shwmae / Su'mae (Dydd Llun 15 Hydref).

Cymerodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gamau breision i ddod yn awdurdod dwyieithog fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae hyrwyddo Diwrnod Shwmae / Su'mae gyda'r staff, y gymuned ac ysgolion wedi rhoi cyfle i bawb yn y fwrdeistref ddathlu'r Gymraeg.

DRAFT

Dathlodd llyfrgelloedd ledled y fwrdeistref sirol Ddiwrnod Shwmae/Su'mae drwy ddefnyddio hunlun i atgoffa ac annog staff ac ymwelwyr i ddweud "#ShwmaeSumaeCaerffili"! Fe wnaethant hefyd ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i helpu lledaenu'r neges.








Gwahoddwyd staff y cyngor i 'Fore Coffi' yn Nhŷ Penallta, i fwynhau pice ar y maen, diod poeth a chyfle i ymarfer eu sgiliau Cymraeg gydag eraill o wahanol rannau o'r sefydliad. Yn ogystal â hynny, roedd Menter Iaith Caerffili yno i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol yn eu sesiynau ar draws y fwrdeistref.

Cafodd holl staff y Cyngor eu hannog i ddechrau pob sgwrs gyda Shwmae, a chafodd gwybodaeth ei harddangos a oedd yn cynnwys llinell amser ar gyfer y Gymraeg yn esbonio sut mae'r iaith wedi datblygu.

DRAFT

# Cefnogi Cymunedau sy'n Ystyriol o Oedran

## Poetry Together



Fe ymunodd disgyblion blwyddyn 10 o Ysgol Lewis, Pengam gyda phreswylwyr o Gartref Gofal Trafalgar Park, Nelson i ddangos cryfder y gair ysgrifenedig i ddod â gwahanol grwpiau oed at ei gilydd, mewn digwyddiad Poetry Together yn ddiweddar, ym mis Hydref 2019.  Cynhaliwyd y digwyddiad yn Ysgol Eaton Square yn Llundain, dan arweiniad y cyflwynydd Gyles Brandreth a gyda Duges Cernyw'n bresennol.

Roedd y disgyblion a'r trigolion cartref preswyl yn amrywio o 14 i 94 oed. Yn y digwyddiad buont yn adrodd gwaith gan Idris Davies ac roedd barddoniaeth mewn Pwyleg o'r enw Ucheldiroedd, wedi'i pherfformio gan Leon Block, a gymrodd ran yn yr ail ryfel byd, a disgybl Kascper Dudek. Roedd hefyd ddarn o'r enw 'Friendship' a ysgrifennwyd gan Beryl Jones, un o breswylwyr Trafalgar Park.

Roedd Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth yn tynnu sylw at fanteision dysgu barddoniaeth ar gof a phontio'r bwlch rhwng cenedlaethau, i wella'r cof a datblygiad lleferydd a chynyddu hyder, trwy ddysgu ac adrodd barddoniaeth. Daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer Poetry Together ar ôl i Gyles Brandreth wneud rhaglen radio'r flwyddyn ddiwethaf am ba mor werthfawr yw dysgu barddoniaeth ar gof. Roedd yn defnyddio ymchwil gan Brifysgol Caergrawnt oedd yn dangos sut mae dysgu ac adrodd barddoniaeth o fudd i bobl ifanc a hŷn.

## Fforwm 50+ Caerffili – Digwyddiad y Nadolig

Mae'r Fforwm 50+ yn parhau gyda'u digwyddiadau ar gyfer gwahanol genedlaethau yn Ysgol Lewis, Pengam.  Yn ystod haf 2019 fe ymunodd Mike Oliver â Phwyllgor Llywio'r Fforwm 50+, ac yntau newydd ymddeol o fod yn brifathro cynorthwyol Ysgol Lewis, Pengam. Mae ef wedi bod yn cefnogi a hwyluso'r Clwb Cinio Rhyng-genhedlaeth fu'n digwydd yn yr ysgol am nifer o flynyddoedd.

Fe drefnodd y Pwyllgor Llywio ddigwyddiad arbennig, Clwb Cinio Nadolig, yn 2019. Y Fforwm 50+ dalodd am yr adloniant yno, ac estynnwyd gwahoddiad oedd yn cynnwys aelodau'r Fforwm. Cafodd pawb fwynhau pryd Nadolig, gydag 80 o bobl yn bresennol, cymysgedd o aelodau o'r Clwb Cinio Rhyng-genhedlaeth, y Fforwm 50+, Gofalwyr (di-dâl), Cartref Gofal, Grŵp Strôc a Grŵp Eglwys. Yn ystod y pryd cawsant eu diddanu gan ddau gyn-ddisgybl o Ysgol Lewis, Pengam.

DRAFT

### Cyfeillion Dementia

Fe ddatblygodd Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Ddementia yn ystod y cyfnod 2019-2020, gan ganolbwyntio mwy ar gael plant, pobl ifanc ac ysgolion i gymryd rhan. Roedd gwaith yn parhau hefyd i ganolbwyntio ar ddarparu cyrsiau ymwybyddiaeth Cyfeillion Dementia a Hyfforddi'r Hyfforddwyr (Pencampwyr Dementia). O ganlyniad i hyn:

- daeth 1,395 o bobl yn gyfeillion dementia, gan ddarparu 54 o sesiynau
- hyfforddwyd 10 o Bencampwyr Dementia ychwanegol

Y Cyng. Carol Andrews yw cadeirydd y Grŵp Cynllunio Cymunedau Cyfeillgar i Ddementia, ac roedd hi'n allweddol mewn datblygu'r ysgol gyntaf yn y fwrdeistref i gyrraedd statws Cyfeillgar i Ddementia, sef Ysgol Heolddu, Bargoed. Byddwn yn gweithio tuag at gael tref Bargoed i ddod yn dref sy'n Gyfeillgar i Ddementia.

DRAFT

# Cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog

### Y Lluoedd Arfog yng Nghaerffili

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 385,000 o aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog. Mae hyn yn cyfateb i 12% o'r boblogaeth.  Mae hyn yn cynnwys aelodau presennol, aelodau wrth gefn a chadetiaid yn ogystal â'u teuluoedd a chyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Bydd llawer wedi cael profiad o ryfel, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a'r heriau y gall godi yn ei sgil.

Mae 3,230 o bersonél milwrol a sifil wedi'u lleoli yng Nghymru ac mae yna 60 o sefydliadau a chanolfannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gan gynnwys canolfannau wrth gefn a'r ystadau hyfforddi. Gwyddys i 15,230 o bobl adael Lluoedd Arfog Rheolaidd y DU yn 2018. Amcangyfrifir bod 3000 wedi ymgartrefu yng Nghymru.

Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog a chadw at ei addewid i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog.

Bu'n flwyddyn gynhyrchiol iawn o ran codi proffil Cyfamod y Lluoedd Arfog ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ac ardal ehangach Gwent.  Cyflawnwyd hyn drwy newid polisïau, hyfforddiant, digwyddiadau a chyhoeddusrwydd.  Mae Cylchlythyr Cyfamod Lluoedd Arfog Gwent yn cael derbyniad da a'i ddosbarthu ledled y fwrdeistref a Gwent.

DRAFT

### Hyfforddiant

Mae pecyn e-ddysgu Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi cael ei ryddhau ac mae ar gael drwy'r fewnrwyd i'r staff ac ar wefan y Cyngor.  Mae hyfforddiant pwrpasol wedi cael ei roi i adrannau; ond oherwydd Covid 19 bydd y sesiynau hyn yn awr yn cael eu cynnig ar lein.

## Gemau Invictus



Cafodd Cymro fu’n gwasanaethu yn y fyddin, Jonathan Congreve, 57, o’r Gelligaer ei anrhydeddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn cyfarfod o’r cyngor llawn yn Nhŷ Penallta dydd Mawrth, 3 Mawrth 2020.  Cafodd Mr Congreve ei ddewis i gynrychioli Team UK yng Ngemau Invictus yn 2021, gan gystadlu mewn saethyddiaeth, nofio a rhwyfo. Roedd John wedi gwasanaethu yn y fyddin am 22 o flynyddoedd, ac erbyn adeg gadael roedd yn Staff Sergeant yn y Royal Electrical Mechanical Engineers.

## Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn – Gwobr Aur

Mae’r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn yn cydnabod y rhai sydd wedi mynd ymhell tu draw i’r gofyn yn eu hymdrechion i gefnogi cymuned y lluoedd arfog. Mae hon yn wobr bwysig oddi wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn i anrhydeddu cyrff sydd wedi dangos a hyrwyddo cymorth arbennig o dda i bobl sydd yn y lluoedd wrth gefn, cadetiaid, cyn filwyr a’u teuluoedd.

Eleni fe ddyfarnwyd y Wobr Aur i 10 o gyflogwyr yng Nghymru – gyda 3 o’r rheiny yng Ngwent. Ymysg y rhai a gafodd y wobr hon roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Tref Casnewydd.
Bydd pob un o’r rhain yn gweithio’n agos i sicrhau bod Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael y gefnogaeth orau bosibl.



Fel awdurdod, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo ei hunan i weithredu’n bendant o blaid cymuned y Lluoedd Arfog. Mae polisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol yn eu lle i ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer ymrwymiadau i hyfforddi a gweithredu, ac fe ganolbwyntiwyd ar wella’r cyfleoedd cyflogaeth i bobl o’r lluoedd arfog, yn cynnwys Cynllun Sicrwydd Cyfweliad.

DRAFT

## Cyngor Bwrdeistref Caerffili'n cefnogi'r ymgyrch #40ThousandStrong

Mae Help for Heroes wedi diolch i bobl Caerffili am gefnogi eu hymgyrch #40ThousandStrong i godi ymwybyddiaeth o anghenion y dynion a'r merched sydd wedi gadael gwasanaeth milwrol am resymau meddygol.

Roedd gwirfoddolwyr, ynghyd â gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Côr Gwragedd Militaraidd Caerdydd a Milwyr wrth Gefn o Sgwadron 614 y Royal Auxiliary Air Force yng Nghanolfan Siopa Cwrt y Castell yn y dref ar ddydd Sadwrn 2 Tachwedd. Fe wnaeth busnesau lleol, arweinyddion dinesig a'r cyhoedd gyfrannu'n hael a rhoi dros £1,000.

Roedd arddangosfa o dros 4,000 o ffigyrau bychain, i ddangos graddfa'r angen am adferiad corfforol a meddyliol ymysg  pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog am resymau meddygol. Gallai cefnogwyr gyfrannu at yr elusen a chael eu ffigwr eu hunain mewn bocs fel symbol o'r ymgyrch.

Fe ddewiswyd Caerffili ar gyfer lansio ymgyrch yr elusen yng Nghymru am fod gan y dref boblogaeth o bron 40,000, sef nifer y dynion a merched sydd wedi gadael eu gyrfa filitaraidd am resymau meddygol dros y 20 mlynedd diwethaf.

## Swyddog Cefnogi Addysg Lluoedd Ei Mawrhydi

Mae pecyn newydd o gefnogaeth i blant pobl y Lluoedd Arfog yng Nghaerffili, i'w helpu gyda'u cyrhaeddiad a'u datblygiad, trwy ariannu swyddog cefnogi wedi'i neilltuo iddynt. Daw hyn ar ôl llwyddiant cais am grant oddi wrth Gronfa Cefnogi Addysg y Weinyddiaeth Amddiffyn i gyflogi swyddog cefnogi addysg Lluoedd Ei Mawrhydi. Mae'n swydd i weithio ar draws addysg, gyda chyrff y trydydd sector, i godi ymwybyddiaeth o'r heriau unigryw y gall plant sydd â'u rhieni yn y lluoedd arfog eu hwynebu oherwydd yr angen i symud ac i wasanaethu. Trefnwyd ariannu newydd oddi wrth y Weinyddiaeth Amaeth am swydd 2 flynedd, yn dechrau ym Medi 2020.



DRAFT

## Ymwybyddiaeth ymhlith y Cyhoedd

Mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r gwaith y mae'r awdurdodau lleol yn ei wneud o ran y Lluoedd Arfog yn mynd rhagddo'n dda.  Mae'r dudalen Facebook (Cymuned Lluoedd Arfog Gwent) a Twitter (@GwentAFC) sy'n hyrwyddo'r gwaith a'r digwyddiadau ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog wedi cael tipyn o sylw ac mae'r gwaith dadansoddi yn gadarnhaol.

Mae'r cylchlythyr chwarterol sy'n cael ei baratoi a'i anfon at bob meddygfa, canolfan waith a llyfrgell a'r gymuned ehangach yn cael derbyniad da iawn ac maent yn llwyddo i gyrraedd y rhai yn y gymuned ehangach nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd o bosibl.

Mae Cyfeiriadur gwasanaethau Gwent wedi cael derbyniad da.  Mae'r ddogfen ar gael ar  wefan CBSC i'r cyhoedd.

DRAFT

## Gweithio gyda Chymunedau Sipsiwn a Theithwyr

Mae Grŵp Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i fonitro newidiadau yn y sefyllfa leol ers cyhoeddi'r  Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gafodd ei gwblhau yn 2015 a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2016. Mae'r ffocws ar hyn o bryd ar yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, ond mae hyn wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, mae rhywfaint o waith sylfaenol wedi'i wneud ynghyd ag ymgynghori â chynrychiolwyr grwpiau cymorth Sipsiwn a Theithwyr ynghylch yr asesiad. Rhagwelir y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau yng ngwanwyn 2021, er mwyn bwydo i mewn i'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Yn ystod 2019-2020 nid oedd unrhyw wersylloedd anghyfreithlon yn y fwrdeistref sirol i ni ddelio â nhw. Rydym wedi bod yn gweithio gyda safle yng ngogledd y fwrdeistref sirol trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf 2019-2020, gan eu cynorthwyo a'u cynghori gydag unrhyw faterion lles megis draenio a chyflenwad dŵr. Rydym hefyd wedi darparu gwybodaeth i'r wefan gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo yn ystod y cyfyngiadau cyfnod clo parhaus. Yn ystod y broses ymgysylltu â'r wefan hon, mi wnaethom gysylltu â Teithio Ymlaen: y Gwasanaeth Cynghori ac Eiriolaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

DRAFT

# Amrywiaeth yn y Gweithlu

## Gwelliannau i Ddata ar Weithlu CBSC

Mae'n rhaid i'r Cyngor gadw gwybodaeth gyfredol am ei holl gyflogeion ar ei gronfa ddata adnoddau dynol er mwyn sicrhau y gall gyfathrebu â staff yn effeithiol a chyflawni ei rwymedigaethau cytundebol fel cyflogwr. Mae'n rhaid i'r Cyngor gasglu gwybodaeth am gyflogeion o dan y gyfraith, er enghraifft eu sgiliau Cymraeg a data ar gydraddoldeb sy'n helpu'r Cyngor i ddeall proffil y gweithlu er mwyn cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae'r gallu i gofnodi gwybodaeth am y Gymraeg o ran data staff a gwaith dadansoddi yn rhan annatod o'r system gyflogres yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Dangosir ffigurau diwedd y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2020 isod yn **Nhabl 6**.

Yn unol â Hysbysiad Cydymffurfiad Safonau Iaith Cymraeg y Cyngor, rhaid i'r Cyngor asesu a chofnodi sgiliau iaith ei weithwyr. Rhaid i'r Cyngor hefyd adrodd yn flynyddol ar nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn dan sylw (Safon 170). Rhestrir y Safonau perthnasol isod. I weld yr Hysbysiad Cydymffurfiad cliciwch ar y ddolen hon - Hysbysiad Cydraddoldeb CBSC

**Tabl 5 – Safonau Cymraeg Perthnasol yn ymwneud ag asesu a chofnodi Sgiliau Cymraeg gweithwyr**

| Safon Rhif | Manylion |
|---|---|
| 127 | Rhaid i chi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion. |
| 151 | Rhaid i chi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny. |

O gymharu â'r llynedd, unwaith eto rydym wedi cofnodi siaradwyr Cymraeg ychwanegol ar y system AD ar draws bron pob un ond 2 o'r 17 maes gwasanaeth Gellir esbonio'r cynnydd yn rhannol oherwydd bod proses fwy cadarn yn ei lle i ddal yr wybodaeth hon, e.e. ar y cam penodi.

**Tabl 6 – Cyfanswm nifer y staff a siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd ar iTrent**

**Cyfansymiau'r Cyngor**

| | Cyfanswm Staff | Siaradwyr Cymraeg | % |
|---|---|---|---|
| **2016-2017** | 8,682 | 402 | 4.63 |
| **2017-2018** | 8,767 | 436 | 4.97 |
| **2018-2019** | 8,533 | 1,581 | 18.53 |
| **2019-2020** | 8,402 | 1,796 | 21.37 |

## Trosolwg o Raglen Hyfforddiant Cydraddoldeb 2019-2020

Bu rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr a ddarparwyd ar gyfer staff ac aelodau etholedig ar gydraddoldeb a'r Gymraeg, sy'n cynnwys cyrsiau i ddysgu Cymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain, yn llwyddiant mawr unwaith eto eleni.

Cofrestrodd cyfanswm o **253** o aelodau o staff i fynychu cyrsiau a oedd yn ymwneud â chydraddoldeb penodol **Tabl 7**:

**Tabl 7 – Staff a gofrestrwyd i fynychu cyrsiau ynglyn â chydraddoldeb**

| Teitl y Cwrs | Presenoldeb | Niferoedd a dynnwyd yn ôl |
|---|---|---|
| Iaith Arwyddion Prydain (lefelau 1-4) | 15 | 0 |
| Hyfforddiant Cyfeillion Dementia | 102 | 0 |
| Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 29 | 3 |
| Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb | 67 | 0 |
| Ymwybyddiaeth Ofalgar | 40 | 2 |

Rydym yn parghau â'n hymdrechion i wella gallu ein staff i gynnal Asesiadau cadarn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth gynllunio, diwygio neu ystyried lleihau / terfynu unrhyw un o wasanaethau, polisïau, swyddogaethau, strategaethau neu brosiectau'r Cyngor.

Un llwyddiant allweddol oedd cyflwyno hyfforddiant Ffrindiau Dementia a'r system "hyfforddi i hyfforddi" ar gyfer Hyrwyddwyr Dementia.  Mae Hyrwyddwyr Dementia hefyd yn rhoi hyfforddiant Ffrindiau Dementia yn eu meysydd gwasanaeth eu hunain bellach, mae hyn wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o fewn ein hadran lyfrgell.

## Hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at fodloni ei ofynion o dan y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol.  Bu ffocws ar gyfer 2019/2020 o hyd ar gydlynu a chyflwyno hyfforddiant **Grŵp 1** (Codi Ymwybyddiaeth) a **Grŵp** 2 (Gofyn a Gweithredu).  Mae'r gallu i roi hyfforddiant yn fewnol hefyd wedi cael ei ddatblygu.

Yn 2019, cafodd ein Cynllun Hyfforddiant ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ers 2016/17 a manylu ar ein nodau hyfforddiant hyd at 2022.  Cyflwynwyd y cynllun hyfforddiant newydd i'r Tîm VAWDASV Rhanbarthol ym mis Mawrth 2019.

DRAFT

Mae nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn uchel iawn, sy'n adlewyrchu maint ein gweithlu.

**Cynnydd Grŵp 1:**

- Ar ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd 4177 o gyflogeion presennol wedi cwblhau hyfforddiant Grŵp 1 (Codi Ymwybyddiaeth). Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 57% o'r gweithlu (wedi cynyddu o 42% 31/3/2019)

**Cynnydd Grŵp 2:**

- Ar ddiwedd mis Mawrth 2019, roedd 682 o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Grŵp 2 (Gofyn a Gweithredu), sef 45% o'r staff y nodwyd bod angen yr hyfforddiant arnynt (wedi cynyddu o 24% 31/3/2019)

Gwnaed cynnydd yng **Ngrŵp 1** a **Grŵp 2** y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Dyma fydd ein ffocws ar gyfer 2020/21 o hyd gyda'r bwriad o'i gyflwyno i ysgolion. Bwriedir cynnal adolygiad o ofynion **Grŵp 3** (Hyrwyddwyr) a **Grŵp 6** (Arweinyddiaeth) hefyd. Ar y gweill hefyd y mae'r datblygiad ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant hwn yn ddigidol. Mae cyfres ffilmiau Cryfhau Arweinyddiaeth wedi bod ar gael i holl aelodau **Grŵp 6** i'w gwylio. Cyflwynwyd hyfforddiant **Grŵp 1** i holl aelodau **Grŵp 6** yn ystod 2018/2019. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd wedi cael cyfle i gwblhau hyfforddiant **Grŵp 2** yn 2018, 2019 a 2020.

DRAFT

## Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Un o ofynion Safonau'r Gymraeg mewn perthynas â hyfforddiant staff yw bod cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg yn cael eu darparu.

Ers 2001, mae **2,034** o staff y Cyngor a staff sefydliadau partner wedi mynychu dosbarthiadau Cymraeg Llafar, yn amrywio o gyrsiau rhagflas i ddechreuwyr, hyd at a chan gynnwys cyrsiau Safon Uwch.

Mae'r Safonau perthnasol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 130 | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith—<br>(a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a<br>(b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr. |
| 131 | Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith. |
| 132 | Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—<br>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i<br>lle yn niwylliant Cymru);<br>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;<br>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y staff a fynychodd hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn dan sylw, gyda'r Cyngor yn trefnu hyfforddiant Cymraeg llafar a chodi ymwybyddiaeth i'r staff ac aelodau etholedig.


Dengys **Tabl 8** y data ar y cyrsiau a gynigiwyd i staff CBS Caerffili ac a fynychwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2019-2020:

**Tabl 8 - Cyrsiau Iaith Gymraeg a gynigiwyd i staff CBS Caerffili ac a fynychwyd ganddynt ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019-2020**

| TEITL Y CWRS A GYNIGIWYD | NIFER Y CYRSIAU A GYNIGIWYD | NIFER YR AELODAU O STAFF A FYNYCHODD Y CWRS |
|---|---|---|
| 30 Wythnos | 41 | 36 |
| Cymraeg Gwaith – Cwrs 10 awr | 15 | 159 |
| Cwrs Blasu Deuddydd y Gymraeg | 3 | 15 |
| Say Something in Welsh (Ar-lein) | 3 | 13 |
| Tynnu nôl o gyrsiau | Ddim yn berthnasol | 0 |

DRAFT

Lansiwyd Cwrs Iaith Gymraeg Ar-lein 10 a elwir yn **Cymraeg Gwaith** yn ystod gwanwyn 2018. Mae’r cwrs yn eich cyflwyno i eiriau ac ymadroddion bob dydd yn dibynnu ym mha sector rydych chi'n gweithio ynddo. Mae'r cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn cynnwys y sector gofal iechyd, y sector gofal cymdeithasol, gwasanaethau brys, athrawon, penaethiaid, y sector twristiaeth, manwerthu, y sector trafnidiaeth ac ychydig o rai eraill.




Gellir ymgymryd â'r cwrs fesul cam, Rhan 1 a Rhan 2, ac mae'n tywys y dysgwr trwy gyfres o sefyllfaoedd ac yna set o gwestiynau. Ar ôl cwblhau'r cwrs, caiff tystysgrif ei e-bostio at ddysgwyr.

Gwelodd y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 gynnydd yn nifer y bobl sy'n cwblhau'r cyrsiau hyn gyda thros 500 o gyrsiau'n cael eu cwblhau, yn bennaf gan staff addysgu.

## Recriwtio a'r Gymraeg

Un o ofynion Safonau'r Gymraeg yw adrodd ar ein cynnydd mewn perthynas â recriwtio a nodi ein cynnydd o ran recriwtio a'r Gymraeg fel amlinellir yn Safon 136. Hysbysebwyd cyfanswm o **2,401** o swyddi gwag a swyddi newydd rhwng 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020. Roedd y gofynion ynglyn â'r Gymraeg ar gyfer y swyddi hyn fel a ganlyn:

(i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol
**24**

(ii) roedd angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
**10**

Mae cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg wedi bod ar gael i bob aelod o'r staff am ddim ers y flwyddyn academaidd 2001-2002 (gweler **Adran 3**)

(iii) Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol
**2327**

(iv) Nid oedd angen sgiliau Cymraeg
**2336***

***Aseswyd nad oedd angen sgiliau Cymraeg ar gyfer y swydd hon oherwydd sgiliau Cymraeg yr aelodau eraill o'r tîm. Fodd bynnag, hysbysebir bod Cymraeg yn ddymunol o leiaf ar gyfer pob swydd wag.**

Nodwyd, o ddadansoddi'r data a gofnodwyd, bod y cwestiwn sy'n cael ei ofyn ar y Ffurflen Asesu'r Gymraeg '***Dim Gofyniad Cymraeg'*** naill ai ddim yn cael ei ateb yn gywir neu ei gofnodi'n gywir. Mae hwn yn faes a fydd yn cael ei adolygu a bydd unrhyw welliannau a gaiff eu hadnabod yn cael eu gweithredu. Byddwn yn gweithio gyda rheolwyr recriwtio a Gwasanaethau Pobl ac yn rhoi eglurder ar unrhyw ganllawiau sydd ar waith ar hyn o bryd.

Mae'r Asesiadau Sgiliau Cymraeg mewn perthynas â swyddi gwag neu newydd wedi'u cofnodi gan Adnoddau Dynol ers mis Hydref 2016. Yna mae'r asesiad a'r dystiolaeth ategol yn rhan o'r achos busnes sy'n ofynnol er mwyn cael caniatâd i lenwi swydd wag neu greu swydd newydd.

Yn dilyn adroddiad y llynedd, mae'r broses recriwtio wedi'i chryfhau gyda chwblhau Asesiad Sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu swydd wag, sy'n cael eu hysbysebu fel rhai lle mae'r **Gymraeg yn ddymunol** fel gofyniad safonol. Mae'r asesiad a wneir yn penderfynu a ddylid hysbysebu unrhyw swyddi newydd neu swyddi gwag fel rhai lle mae'r **Gymraeg yn hanfodol**, yn unol â rôl y swydd a chyswllt â'r cyhoedd.

# Cydymffurfiad Corfforaethol

## Dadansoddiad o'r cwynion a gyflwynwyd yn ystod 2019 - 2020

Mae adran **4** o **Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020** yn diffinio'r hyn a ystyrir yn gŵyn o ran materion sy'n ymwneud â Chydraddoldeb a'r Gymraeg, a hynny er mwyn bod yn gyson wrth ymdrin ag unrhyw gŵyn o'r fath gan fod y Cyngor yn gweithredu gwasanaeth integredig ar gyfer Cydraddoldeb a'r Gymraeg.

### *v) Cwynion*

*4.10 Gall cwyn gael ei diffinio fel sefyllfa lle nad yw aelod o'r cyhoedd, neu grŵp, yn fodlon ar safon gwasanaeth, neu weithredu neu ddiffyg gweithredu gan y Cyngor neu aelod o'r staff.*

*4.11 Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â'r polisi Cwynion corfforoaethol, ond gyda'r angen ychwanegol i gyfieithu pob gohebiaeth i mewn ac allan ar y mater yn unol â* ***Chanllawiau ar Gyfieithu Iaith Cymraeg 2016*** *ac unrhyw broblem arall o ran cyfieithiad, dyluniad neu fformat.*

*4.12 Caiff cwynion eu monitro'n llawn yn ôl categori o Gydraddoldeb ac ym mha bynnag iaith neu fformat a gyflwynwyd i ddechrau.*

*4.13 Gellir gwneud cwynion yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu drwy e-bost i gyfeiriad e-bost penodol y Cyngor cwynion@caerffili.gov.uk.*

*4.14 Ceir rhagor o ganllawiau yn y* ***Canllawiau ar Gwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg*** *sydd ar ein gwefan.*

Mae cwynion ynglyn â Chydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhan o'r adroddiad chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses ar gyfer Cwynion Corfforaethol lle y bo'n briodol, ac mae'r Uwch-swyddog Polisi (Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori) bellach yn aelod o'r Grŵp Dysgu o Gwynion corfforaethol sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod cwynion penodol a thrawsbynciol.

Cwynion Corfforaethol yw'r rhai sydd o ganlyniad i fethiant proses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Mae'r rhain yn gwynion a allai gael eu hanfon ymlaen yn y pen draw at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynydd y Gymraeg er enghraifft. Ymdrinnir â materion ynglyn ag ymddygiad neu agwedd aelodau o'r staff o dan y Cod Ymddygiad drwy brosesau adnoddau dynol mewnol.

Mae cwynion ynglyn â Chydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhychwantu'r ddau fath o gŵyn yn yr ystyr y gall methiant proses fod o ganlyniad i agweddau neu safbwyntiau aelod o'r staff tuag at grŵp penodol er enghraifft.

DRAFT

Yn ystod 2019-2020, cafwyd **1** gŵyn ynglyn â chydraddoldeb. Roedd y gŵyn yn gysylltiedig ag anabledd mewn perthynas â materion priffyrdd ac ymatebwyd iddi o fewn yr amserlen gorfforaethol. Cawsom **5** cais am wasanaeth a oedd yn ymwneud â chydraddoldeb. Cyfeiriodd 4 o'r ceisiadau hyn at anabledd mewn perthynas â materion priffyrdd a thai ac redd y bumed yn ymwneud â mater LDHT+.

Yn ystod 2019-2020, cawsom **7** cais am wasanaeth ac **1** gŵyn ynglyn â'r Gymraeg. Roedd yr **1** gŵyn yn ymwneud â llythyr gwybodaeth Covid-19 a anfonwyd at yr holl drigolion oedd mewn Saesneg yn unig. Gwnaed penderfyniad strategol oherwydd natur frys yr wybodaeth Covid-19; y byddai'r holl wybodaeth am y mater hwn yn cael ei chyhoeddi a'i hanfon yn Saesneg yn unig. Ymatebwyd i'r gŵyn o fewn amserlenni corfforaethol. Mae'r holl ddogfennau a negeseuon cyfryngau cymdeithasol eraill sy'n ymwneud â'r argyfwng Coronafeirws parhaus yn gwbl ddwyieithog ac yn cwrdd â gofynion Hysbysiad Cydymffurfiad y Cyngor.

Roedd y **7** cais am wasanaeth yn cynnwys problemau gyda gwasanaethau digidol ar-lein ar ein gwefan a diffyg ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diffyg sgiliau iaith Gymraeg ymhlith staff wrth ddelio â galwadau, e-byst ac ymholiadau wyneb yn wyneb. Trafodwyd y ceisiadau gwasanaeth gyda'r meysydd gwasanaeth perthnasol ac mae unrhyw faterion wedi'u datrys neu yn cael eu datrys ar hyn o bryd trwy godi ymwybyddiaeth staff, hyfforddiant iaith Gymraeg neu ddiwygiadau i systemau digidol ar-lein lle cafodd materion eu hadnabod.

**Tabl 9 – Cwynion a Cheisiadau Gwasanaeth a dderbyniwyd yn ystod 2019-2020 gan Gyfarwyddiaeth a Maes Gwasanaeth**

| Cyfadrannau | Maes Gwasanaeth | Cwynion Cydraddoldeb | Ceisiadau Gwasanaeth Cydraddoldeb | Cwynion y Gymraeg | Ceisiadau Gwasanaeth y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Weithredwr** | Prif Weithredwr | - | 1 | - | - |
| **Cymunedau** | Priffyrdd | 1 | 1 | - | - |
| | Tai | - | 1 | - | - |
| | Hamdden | - | 1 | - | 1 |
| | Cynllunio | - | - | - | 1 |
| | Gwasanaeth Cofrestru | - | - | - | 1 |
| | Lleoliadau | - | - | - | 2 |
| | Rheoli Gwastraff | - | - | - | 1 |
| **Addysg a** | Addysg | - | 1 | - | - |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | Polisi a Phartneriaethau | - | - | 1 | 1 |
| | **Cyfansymiau** | **1** | **5** | **1** | **7** |

DRAFT

# Arferion Da, Teilwra Gwasanaethau a Hyrwyddo

Mae'r straeon canlynol yn dangos sut mae meysydd gwasanaeth y Cyngor wedi teilwra eu gwaith o ddydd i ddydd yn unol â gofynion ac anghenion defnyddwyr gwasanaeth unigol. Mae pob un yn enghraifft ardderchog o roi egwyddorion Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar waith yn ymarferol er budd pobl yn y fwrdeistref sirol.

## Strategaeth Ddigartrefedd Gwent

Cafodd Strategaeth Ddigartrefedd Gwent ei chymeradwyo gan y Cabinet yn Rhagfyr 2018 ac mae nawr yn weithredol ac yn dod ymlaen yn y fwrdeistref sirol. Mae'n darparu cynllun gweithredu pedair blynedd sy'n cynnwys amcanion rhanbarthol a lleol. Cafodd nifer o'r camau yn y strategaeth eu cyflawni yn yr ychydig fisoedd cyntaf o'i datblygu, gyda'r mwyafrif o'r gwaith ymarferol ar ddigartrefedd a gwaith partneriaeth yn eu lle'n barod yn y fwrdeistref sirol.

Bu'r cyngor yn gweithio'n llwyddiannus eto yn 2019 gyda Llochesi Nos Eglwysi Bwrdeistref Caerffili, mewn partneriaeth gyda'r Parch. Sue Phillips o Eglwys y Bedyddwyr Elim, Pontllanfraith, a Cornerstone Support Services Ltd. Roedd eglwysi a chanolfannau ar draws y fwrdeistref sirol yn cymryd rhan ac yn agor eu drysau i ddarparu cyfleusterau a chefnogaeth yn ystod misoedd y gaeaf. Roedd arian ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru'n galluogi'r bartneriaeth i ddarparu cartrefi i bedwar allan o bymtheg o gleientiaid y Llochesi Nos yn ystod y flwyddyn. Mae cefnogaeth yn parhau, trwy fod y gronfa atal digartrefedd yn sicrhau bod pobl sy'n cysgu allan yn cael mynediad at lefydd i fyw ynddynt.

## Gweithgareddau LHDTC



Roedd y cyngor yn llawn o liwiau'r enfys mewn digwyddiad ym mis Gorffennaf 2019 i gefnogi amrywiaeth a chynhwysiad i'r gymuned LHDTCQ+. Mae'r awdurdod wedi camu ymlaen lawer yn yr ymdrech i ddod yn 'Gyngor Balch' ers ei lansio yn 2015. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o Pride Cymru i brif swyddfeydd y cyngor yn Nhŷ Penallta i hyrwyddo'r digwyddiad Balchder oedd i'w gynnal cyn hir, mewn partneriaeth gyda Grŵp Ieuenctid LHDTC y cyngor.

DRAFT

Cafodd nifer o ddigwyddiadau eu hyrwyddo i ddathlu Mis Hanes LHDTC. Daeth Pride Cymru i ymweld â phencadlys y Cyngor yn Nhŷ Penallta i hyrwyddo'u gwaith i hyrwyddo cydraddoldeb yng Nghymru.




Fe ymunodd staff arlwyo Caerffili hefyd mewn hyrwyddo'r mis, trwy ddarparu 'Teisen Enfys' i'r staff a gwisgo lliwiau'r enfys.



Fel rhan o Fis Hanes LHDTC, roedd Cyngor Caerffili'n rhedeg cystadleuaeth celf i ysgolion a grwpiau ieuenctid ar draws y fwrdeistref sirol, wedi'i seilio ar thema'r mis hanes LHDTC, sef 'Barddoniaeth, Rhyddiaith a Dramâu'.

Roedd y gwaith a gynhyrchwyd gan y bobl ifanc yn ffantastig. Dyma enillwyr 2020.






Fel rhan o barhad y gwaith 'Cyngor Balch', gwahoddwyd Cyngor Caerffili a Chyngor Rhondda Cynon Taf i ddigwyddiad Mis Hanes LHDTC a groesawyd i Gampws Nantgarw gan Goleg y Cymoedd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys siaradwyr o Pride Cymru a darlithydd o'r coleg ei hunan, Paul Davies, fu'n sôn am Hawliau LHDTC: Cymryd Golwg Fyd-eang.





Fantastic event for LGBT+ History Month yesterday working in partnership with @CymoeddEandD and @CaerphillyCBC. Always lovely to speak to inspiring young people. @RCTCouncil @CllrMWebber #ProudCouncils


DRAFT

## Wythnos Weithredu Dementia

Fe drefnodd gwasanaeth llyfrgell Caerffili a Chymdeithas Alzheimer amrediad o weithgareddau i'w cynnal yn ystod Wythnos Weithredu Dementia (20-26 Mai 2019).

Bu'r Pencampwyr Dementia'n croesawu sesiynau Cyfeillion Dementia i lyfrgelloedd lleol ar draws y fwrdeistref sirol. Roedd y rhain yn sesiynau di-dâl, yn agored i'r cyhoedd ddod iddynt ac wedi'u hanelu at unrhyw un oedd yn dymuno dysgu dipyn bach mwy am Gyfeillion Dementia.




Y thema oedd 'cynhwysiad' ac roedd hynny am fod dros un rhan o dair o bobl gyda dementia'n dweud eu bod yn teimlo'n unig, a dros un rhan o dair wedi colli cysylltiad gyda'u cyfeillion ar ôl cael diagnosis. Roedd Cyngor Caerffili'n annog trigolion i weithredu fel bod pobl gyda dementia'n gallu parhau i gadw cysylltiad am amser hirach gyda'r pethau maen nhw'n eu caru.

## Urddas Mislif

Daeth Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden y cyngor yn un o'r gwasanaethau hamdden cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gymryd camau tuag at daclo 'tlodi mislif'. Mae'n dechrau gyda'r gred na ddylai unrhyw eneth golli cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol am na all gael nwyddau mislif;  bydd y cynllun Urddas Mislif yn awr yn golygu bod pob canolfan hamdden yn y fwrdeistref sirol yn cynnig cyflenwadau digonol o eitemau hylendid, i barhau i leihau'r rhwystrau i fywyd egnïol.

Fe benderfynodd Llywodraeth Cymru ddarparu cynnyrch hylendid o bob ysgol a choleg ar draws Cymru. Gall diffyg cynnyrch hylendid gael effaith o hyd at 2% ar bresenoldeb mewn ysgolion, ac yn dilyn ymlaen o hynny, mae'r Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden yn cytuno bod effaith debyg hefyd mewn canolfannau hamdden. Felly bydd trefnu bod cynnyrch hylendid ar gael yn caniatáu i enethod ifanc a merched Caerffili allu ymarfer yn hyderus, wrth barhau i ddatblygu'r teimlad o gefnogaeth mae pob canolfan hamdden yn ceisio'i darparu i bob un sy'n ei defnyddio.

DRAFT

## Prosiect yr Islawr yn dathlu 20 mlynedd o wasanaeth



Mae Prosiect yr Islawr yn Coed Duon wedi dathlu 20 mlynedd o wasanaeth i bobl ifanc a'r gymuned. Yr Islawr yw'r prosiect gwybodaeth ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili, yn darparu cefnogaeth, eirioli a gwybodaeth gyffredinol i bobl ifanc 11-25 oed.

Mae'r prosiect yn cynnig nifer o wasanaethau eraill hefyd, fel gwaith grŵp a sesiynau gwybodaeth h.y. cyffuriau ac alcohol, hunan barch, diogelwch ar y rhyngrwyd, ysgrifennu CV a llawer mwy. Mae hefyd yn cynnig cefnogaeth trwy redeg Grŵp LHDTCQ misol, ac erbyn hyn mae dros 100 o bobl ifanc LHDTCQ wedi cofrestru gyda'r grŵp.

## Iechyd Meddwl

Ar 19 Tachwedd 2019, roedd dathliad ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Dynion, ar y cyd gydag Unsain Caerffili.

Roedd arddangosfa o wybodaeth i gefnogi hyn, yn tynnu sylw at bobl enwog sydd wedi brwydo gyda materion iechyd meddwl, a manylion cyswllt ar gyfer rhwydweithiau cefnogi perthnasol. Roedd 'Mind' Caerffili yno i hyrwyddo eu rhaglen iechyd meddwl leol, wedi'i hanelu'n benodol at ddynion. Roedd hefyd siaradwyr gwadd yno o nifer o gyrff cefnogi lleol, ac i gau'r digwyddiad roedd Neville Southall, gôl geidwad i Gymru ac Everton, sy'n hyrwyddo materion iechyd meddwl yn yr ardal leol.







DRAFT

## Diwrnod Cofio'r Holocost

Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gofnodi Diwrnod Cofio’r Holocost yn Nhŷ Penallta gyda digwyddiad ar gyfer Gwent gyfan, ar 30 Ionawr 2020. Roedd Dr Martin Stern MBE yno, un fu trwy’r Holocost, ac fe soniodd am ei brofiad ei hun ohono.

Ganwyd  Dr Martin Stern yn yr Iseldiroedd yn 1938. Daeth y Natsïaid i’r wlad honno yn 1940 ac aeth bywyd yn fwyfwy anodd i dad Martin, oedd yn Iddew, a bu’n rhaid iddo fynd i guddio. Cafodd Martin ei guddio gan gwpwl yn Amsterdam, yn agos at le'r oedd Anne Frank yn cuddio. Pan oedd yn bump oed, cafodd Martin ei arestio yn yr ysgol a’i yrru i wersyll carchar yn yr Iseldiroedd, oedd yn lle i aros dros dro cyn mynd i wersylloedd lladd y Natsïaid. Yn wahanol i’r rhan fwyaf o blant yno, cawsant hwy eu gyrru i dref Terezin yng ngwlad Siec. Yno roedd Iddewon yn cael eu defnyddio gan y Natsïaid i roi’r argraff anghywir i weddill y byd am beth oedd yn digwydd i Iddewon, ond wedyn byddent yn cael eu gyrru i’w lladd.

Oherwydd amgylchiadau eithriadol, llwyddodd gwraig oedd yn garcharor yno i ofalu amdanynt hyd at ddiwedd y rhyfel. Fe aeth 15,000 o blant trwy Terezin (Theresienstadt) a dim ond ychydig o’r plant barhaodd yn fyw, ond roedd Martin a’i chwaer Erica ymysg y rheiny. Cafodd eu tad ei yrru i Auschwitz a bu farw yng ngwersyll Buchenwald. Bu ewythr a thad-cu Martin hefyd farw tra roeddent yng ngafael y Natsïaid.

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, bu Martin yn byw yn Amsterdam ac wedyn symudodd i Loegr yn 1950. Ymhen amser, bu’n astudio Meddygaeth yn Rhydychen a daeth yn arbenigwr mewn asthma a chlefydau alergedd yng Nghaerlŷr.

Ers iddo ymddeol yn 2002, mae Martin wedi gweithio mewn addysg yn y Ganolfan Holocost Genedlaethol yn Laxton, swydd Nottingham, a gydag Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio’r Holocost. Mae’n aelod o Ganolfan Stanley Burton ar gyfer Astudiaethau Holocost a Hil-laddiad ym Mhrifysgol Caerlŷr. Mae Martin yn credu bod rhaid i addysg am hil-laddiad a digwyddiadau eraill o ladd niferoedd mawr nid yn unig addysgu am beth ddigwyddodd ond hefyd am beth sy’n arwain pobl i gyflawni’r fath droseddau.

DRAFT






## Diwrnod Hawliau'r Gymraeg (Mae gen i hawl)

Mae Diwrnod Hawliau Iaith Gymraeg yn ddiwrnod i hyrwyddo hawliau gyda'r iaith Gymraeg. Mae'n gyfle i gyrff fel y Cyngor hyrwyddo a dathlu'r gwasanaethau Cymraeg mae'n eu cynnig, a'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio'r gwasanaethau




DRAFT

# Atodiad A – Crynodeb o ddata ar y Gweithlu

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ddata lefel uchel a oedd ar system gyflogres *iTrent* ar 31 Mawrth 2020 mewn perthynas â phroffil gweithlu CBS Caerffili, o ran nodweddion gwarchodedig a gallu ieithyddol staff.

- Dangosir Rhyw, Ethnigrwydd ac Anabledd yn ôl Cyfadran ar hyn o bryd.
- Dangosir data ar Grefydd neu Gred a Chyfeiriadedd Rhywiol yn ôl cyfansymiau Corfforaethol yn unig ar hyn o bryd. Mae'r data wedi gwella yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Mae Gallu Ieithyddol ar gael yn ôl Maes Gwasanaeth ond darperir y data hyn fel cyfansymiau Corfforaethol er gwybodaeth.
- Nid oes gwybodaeth arall wedi cael ei chyflwyno gan nad oes unrhyw gofnodion yn y categorïau dan sylw.

| **Rhyw yn ôl Cyfadran** | **Dynion** | **Menywod** | **Heb ddatgelu** |
|---|---|---|---|
| Cymunedau | 884 | 615 | 0 |
| Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol | 900 | 4,223 | 0 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai | 508 | 1,433 | 0 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **2,242** | **6,160** | **0** |

| **Anabledd yn ôl Cyfadran** | **Anabl** | **Nifer** | **Heb ddatgelu** | **Ddim am Ddatgan** |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedau | **55** | **1,351** | **93** | **0** |
| Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol | 81 | 4,245 | 797 | 0 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai | 62 | 1,798 | 81 | 0 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **188** | **7,247** | **967** | **0** |

| **Cyfeiriadedd Rhywiol (cyfansymiau)** | **Niferoedd** |
|---|---|
| Deurywiol | 18 |
| Hoyw | 33 |
| Heterorywiol | 2,851 |
| Lesbiaidd | 21 |
| Arall | 27 |
| Heb ei ddatgelu | 5,342 |
| Amharod i Ddatgan | 110 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **8,402** |

| **Ethnigrwydd yn ôl Cyfadran** | **Gwyn** | **BME** | **Heb ddatgelu** | **Ddim am Ddatgan** |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedau | 1,399 | 14 | 83 | 3 |
| Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol | 4,333 | 38 | 749 | 3 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai | 1,851 | 29 | 60 | 1 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **7,431** | **75** | **889** | **7** |

DRAFT

| Crefydd neu Gred (cyfansymiau) | Niferoedd |
|---|---|
| Bwdhaeth | 5 |
| Cristnogaeth (Pob Enwad) | 1,194 |
| Hindŵaeth | 4 |
| Iddewiaeth | 1 |
| Islam | 1 |
| Siciaeth | 2 |
| Dyneiddiol | 6 |
| Dim Crefydd | 1,594 |
| Heb ddatgelu | 5,495 |
| Ddim am Ddatgan | 62 |
| Arall | 38 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **8,402** |

| Cenedligrwydd | Niferoedd |
|---|---|
| Prydeinig (Nid o Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw) | 1,041 |
| Seisnig | 74 |
| Gwyddelig Gogledd Iwerddon | 3 |
| Gwyddelig | 6 |
| Cymreig | 2,129 |
| Albanaidd | 4 |
| Cernywaidd | 1 |
| Arall | 37 |
| Heb ddatgelu | 5,101 |
| Ddim am Ddatgan | 6 |
| **Cyfanswm yr Awdurdod** | **8,402** |

DRAFT

| Gallu Ieithyddol (Heblaw am Saesneg) | Niferoedd |
|---|---|
| Arabeg | 1 |
| Braille | 2 |
| Llydaweg | 0 |
| Iaith Arwyddion Prydain | 46 |
| Croateg | 0 |
| Iseldireg | 2 |
| Ffrangeg | 37 |
| Almaeneg | 13 |
| Iaith Roeg | 2 |
| Hebraeg | 1 |
| Hindi | 2 |
| Hwngareg | 0 |
| Eidaleg | 3 |
| Cwrdeg | 1 |
| Iaith Arwyddion Makaton | 1 |
| Malaialam | 2 |
| Nepali | 1 |
| Romaneg | 1 |
| Rwsieg | 1 |
| Serbeg | 0 |
| Sbaeneg | 11 |
| Tamil | 1 |
| Twrceg | 2 |
| Cymraeg | 1,796 |

(Ni chofnodir cyfanswm nifer y staff am fod rhai aelodau o'r staff yn siarad mwy na dwy iaith

DRAFT